

**OMBWDSMON
GWASANAETHAU
CYHOEDDUS CYMRU**

**CYFRIFON BLYNYDDOL
AM Y FLWYDDYN
A DDAETH I BEN AR
31 MAWRTH 2011**

Cynnwys

	Tudalen
Adroddiad yr Ombwdsmon	1
Datganiad Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu	12
Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth	13
Datganiad Rheolaeth Fewnol	16
Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru	20
Crynodeb o'r Alldro Adnoddau	23
Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr	24
Datganiad Sefyllfa Ariannol	25
Datganiad Llifoedd Arian	26
Datganiad Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr	27
Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol	28

OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

CYFRIFON BLYNYDDOL AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2011

Adroddiad yr Ombwdsmon

HANES A CHEFNDIR STATUDOL

Dyma bumed Cyfrifon Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a fy nhrydydd set i o gyfrifon blynyddol ers i mi ddechrau ar fy ngwaith fel Ombwdsmon. Daeth y swydd i fodolaeth yn ffurfiol ar 1 Ebrill 2006 yn dilyn rhoi Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 ar waith. Cefais fy mhenodi yn ail Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus am gyfnod penodol o saith mlynedd o 21 Ebrill 2008. Yn unol â pharagraff 18 o Atodlen 1 i Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 mae gennyf gyfrifoldeb personol dros drefniadaeth, rheolaeth a staffio cyffredinol y swyddfa ac am ei gweithdrefnau yng nghyswllt materion ariannol a materion eraill.

Oherwydd y diwygiadau i'r Ddeddf yn sgil Deddf Llywodraeth Cymru 2006, mae cyflog a chostau cyflogaeth cysylltiedig yr Ombwdsmon yn gost uniongyrchol i Gronfa Gyfunol Cymru o 1 Ebrill 2007 ymlaen. Ar ben hynny mae'n rhaid cyflwyno costau rhedeg y swyddfa i Bwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'w hystyried erbyn 1 Tachwedd fan bellaf bob blwyddyn. Erbyn 22 Tachwedd mae'n rhaid i'r Pwyllgor Cyllid ystyried a gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol yr amcangyfrif, gydag unrhyw addasiadau y mae'r Pwyllgor hwnnw, ar ôl ymgynghori ac ystyried unrhyw sylwadau a wnaed gennyf i, yn ei ystyried yn briodol. Mae'r broses hon yn debyg i'r un sy'n berthnasol i'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru a'i bwriad yw sicrhau annibyniaeth fy rôl.

Gosodwyd Adroddiad Amcangyfrifon 2010-11 gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 17 Tachwedd 2009. Oherwydd yr oedi gyda chylch y gyllideb yn sgil yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant, roedd gan y Pwyllgor Cyllid tan 21 Ionawr 2011 i roi adroddiad a gosod yr amcangyfrif ar gyfer 2011-12 gerbron y Cynulliad. Gosodwyd yr Adroddiad Amcangyfrifon ar gyfer 2011-12 gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 21 Ionawr 2011.

NODAU STRATEGOL

Diben Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yw ymchwilio'n annibynnol ac yn ddiduedd i gwynion gan y cyhoedd am y ffordd y cawsant eu trin gan gorff cyhoeddus. Rwyf yn disgwyl i gyrff cyhoeddus drin pobl yn deg, yn ystyriol ac yn effeithlon. Os byddaf yn dyfarnu bod cwyn wedi'i chyfiawnhau, byddaf yn argymhell modd priodol o wneud iawn. Mae gennyf hefyd rôl bwysig yn ymchwilio i gwynion bod aelodau awdurdodau lleol wedi torri'r Cod Ymddygiad.

Y weledigaeth ar gyfer y swyddfa yw:

Cyfrannu at ddatblygu gwasanaethau cyhoeddus ardderchog yng Nghymru drwy sicrhau bod darparwyr gwasanaethau'n parhau i werthfawrogi'r cwynion a dderbynnir ac yn dysgu oddi wrthynt.

Bwriedir cyflawni hyn drwy gyfrwng ein nodau strategol, sef:

- (a) codi ymwybyddiaeth am ein gwasanaeth er mwyn i bobl ddeall yr hyn yr ydym yn ei wneud, a bod pawb y mae angen y gwasanaeth arnynt yn gallu cael gafael arno a'i ddefnyddio;
- (b) bod â phrosesau o ansawdd da ar gyfer delio â chwynion, sy'n ystyried ac yn penderfynu ar gwynion yn drylwyr ond yn gymesur, ac yn cyfleu penderfyniadau'n glir;
- (c) gweithio gyda chyrff cyhoeddus yng Nghymru er mwyn darparu gwasanaethau cyhoeddus o safon well o ganlyniad i'r gwersi y gellir eu dysgu o'r cwynion yr ydym yn ymchwilio iddynt;
- (d) dangos bod ein hadnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon ac effeithiol.

PRIF WEITHGAREDDAU

Dyma brif weithgareddau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yr oedd y cyfrifon hyn yn rhoi sylw iddynt:

- (a) ymchwilio i gwynion gan y cyhoedd yn erbyn awdurdodau lleol (gan gynnwys cynghorau tref a chymuned) yng Nghymru;
- (b) ymchwilio i gwynion oddi wrth aelodau'r cyhoedd yn erbyn cyrff y GIG, ymarferwyr gwasanaethau iechyd teulu a darparwyr gwasanaethau annibynnol i'r GIG yng Nghymru;

- (c) ymchwilio i gwynion am Lywodraeth Cynulliad Cymru a chyrrff cyhoeddus a noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru;
- (d) ymchwilio i gwynion yn erbyn landlordiaid cymdeithasol cofrestredig; a
- (e) ymchwilio i gwynion bod aelodau awdurdodau lleol (gan gynnwys cynghorau tref a chymuned) wedi torri cod ymddygiad eu hawdurdod ar gyfer aelodau.

ADRODDIAD RHEOLI

Dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, cyllidir y swyddfa drwy Gronfa Gyfunol Cymru. Rhaid ad-dalu unrhyw falansau arian na chawsant eu gwario i'r Gronfa hon bedair wythnos fan bellaf ar ôl i gopi ardystiedig o'r cyfrifon gael ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae hyn yn creu mwy o reolaeth gan fod angen mynd ati'n effeithiol i reoli'r gyllideb ar sail arian ac adnoddau. Mae fy nghyflog i a'r costau cysylltiedig yn gost uniongyrchol i'r gronfa gyfunol ac yn cael eu gweinyddu drwy Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Costau cyflogaeth o £2.4 miliwn yw'r eitem fwyaf o wariant o hyd. Mae cost cael cyngor proffesiynol (yn arbennig cyngor arbenigol mewn achosion iechyd) wedi aros yn sefydlog ar £313k (£315k yn 2009-10). Yn ystod y flwyddyn buddsoddwyd yn helaeth mewn systemau cyfrifiadurol gwell i alluogi fy swyddfa i weithredu'n well ac i gyflawni'r gofynion ychwanegol sy'n deillio o'r newidiadau a gyflwynwyd gan Fesur Gwneud lawn am Gamweddau'r GIG ac i baratoi ar gyfer cyflwyno gwasanaeth Cwynion Cymru. Oherwydd y newidiadau hyn gwariwyd rhagor ar ddodrefnu a pharatoi ail lawr ein swyddfeydd ym Mharc Bocam ar gyfer y staff ychwanegol sy'n ofynnol i gyflawni'r gwasanaethau ychwanegol hyn. Roedd cyfanswm cost y buddsoddiad cyfalaf hwn yn £461k a oedd o fewn y dyraniad cyllideb ar gyfer gwariant cyfalaf o £463k. Yn ogystal â bod o fewn y gyllideb, cafodd y gwaith angenrheidiol ei gwblhau o fewn yr amserlen a osodwyd yn y cynigion gwreiddiol.

Gostyngodd y diffyg yn y Gronfa Bensiwn Llywodraeth Leol o £850k i £410k yn bennaf oherwydd y dull o gyfrifo'r Cynnydd mewn Pensiynau gan ddefnyddio'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr yn hytrach na'r Mynegai Prisiau Manwerthu.

Rhoddodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru adnoddau gwerth £4.1 miliwn i gyllido'r swyddfa.

Eleni oedd ail flwyddyn ein Cynllun Strategol tair blynedd a ddatblygwyd i wella'r gwasanaeth a gynigiwn ac a oedd yn ystyried y pwysau ar y gwasanaeth ac yn adlewyrchu'r farn a fynegwyd gan ddefnyddwyr y gwasanaeth.

Mae'r cynnydd yr ydym wedi'i wneud yn galonogol iawn. Bellach rydym yn dechrau gweld manteision y newidiadau y dechreuasom eu cyflwyno flwyddyn neu ddwy yn ôl ac rydym yn

awr yn fwy hyblyg yn y ffordd yr ydym yn delio â'n gwaith achos. Rwy'n eithriadol o falch ein bod wedi llwyddo i leihau'n ddramatig yr ôl-groniad o achosion a achoswyd gan gynnydd sydyn yn y galw ac, yn benodol, gyda nifer uchel yr adroddiadau ymchwilio a gyhoeddwyd gennym yn ystod eleni.

Serch hynny, er bod ein prosesau ar gyfer delio â chwynion yn fwy darbodus, nid ydym wedi colli'r ffocws ar bwysigrwydd ansawdd. Rydym wedi mynd ati i bennu cwynion sy'n addas i'w datrys heb orfod cynnal ymchwiliad llawn ac wedi cynyddu nifer y cwynion a gafodd eu datrys yn y ffordd hon. Ond, rydym hefyd wedi sicrhau bod achosion mwy cymhleth – achosion gofal cymdeithasol ac iechyd yn ddieithriad bron – yn cael yr ymchwiliad manwl y maent yn ei haeddu.

Mae cwynion am awdurdodau lleol wedi aros yn eithaf sefydlog dros y ddwy flynedd diwethaf ond, mae cwynion yng nghyswllt iechyd yn dal i godi (i fyny 10% ers y llynedd) a'r cwynion hyn bellach yw chwarter y cwynion y byddaf yn eu derbyn am ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus. Rwy'n disgwyl i'r cynnydd hwn barhau gyda diflaniad y cam adolygiadau annibynnol o'r drefn cwynion iechyd yn sgil y Mesur Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG. Ond, yn yr un modd, gobeithio na fydd y cynnydd yn ormodol wrth i Fyrddau Iechyd ymrwmo i ddatrys materion ar lefel leol yn unol â'r trefniadau gwneud iawn newydd, a thrwy hynny osgoi'r angen am drosglwyddo'r cwynion i mi.

Y llynedd cyfeiriais at y cynnydd sylweddol yn y cwynion am ymddygiad aelodau awdurdodau lleol a'm gobaith y byddai cynghorwyr yn ystyried y cyngor a'r cyfeiriad yn y Canllawiau a gyhoeddwyd yn Ebrill 2010. Felly, mae'n braf gweld gostyngiad sylweddol (i lawr 21%) yn nifer y cwynion newydd a dderbyniwyd eleni.

Hoffwn dalu teyrnged i'm staff. Maent yn dîm hynod effeithiol a hyfedr. Gosodais darged uchelgeisiol iawn pan roddais ymgymeriad cyhoeddus na fyddai gennym erbyn 31 Mawrth 2011 unrhyw ymchwiliadau heb eu cwblhau dros 12 mis oed. Roedd cyflawni'r targed yn ymdrech fawr ar ran y tîm a dylent fod yn falch iawn o'r hyn y maent wedi'i gyflawni.

Disgrifir cyflawniadau'r flwyddyn sydd wedi mynd heibio yn fanylach yn adroddiad blynyddol statudol 2010-11. Ceir rhagor o wybodaeth yn <http://www.ombudsman-wales.org.uk>.

TALIADAU CYDNABYDDIAETH

Ceir manylion costau cyflog a chostau cysylltiedig yr Ombwdsmon a'r swyddfa yn yr Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth.

RHWYMEDIGAETHAU PENSIWN

Cyflawnir yr ymrwymadau pensiwn ar gyfer cyn weithwyr a gweithwyr presennol trwy:

- (a) Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil;
- (b) y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a weinyddir trwy Gynllun Pensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg (y Gronfa); a
- (c) y pensiynau sy'n cael eu talu'n uniongyrchol i gyn Gomisiynwyr neu eu dibynyddion.

Ceir manylion llawnach yn Nodyn 4 i'r Cyfrifon hyn ac yn adran Y Dyfodol yr adroddiad hwn ar dudalen 10.

POLISI CYFLOGAETH

Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn recriwtio ar yr egwyddor o ddethol ar sail teilyngdod trwy gystadleuaeth deg ac agored ac mae'n ymroddedig i sicrhau cyfle cyfartal i bob aelod o staff. Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru hefyd wedi ymrwymo i gydymffurfio â darpariaethau Deddf Cydraddoldeb 2010, pan ddônt yn weithredol yn ogystal â bodloni'r holl ofynion statudol eraill.

SALWCH

Yn ystod y flwyddyn collwyd 7.7 diwrnod y gweithiwr ar gyfartaledd (2009-10 7.9 diwrnod). Mae hyn gyfwerth â 3.1% (3.1% yn 2009-10) o gyfanswm y diwrnodau gwaith.

Gan fod y swyddfa'n fach, nid yw manylion y mathau o salwch yn cael eu datgelu, gan y byddai modd adnabod yr unigolion o'r wybodaeth a ddarperir. Mae'r swyddfa wedi ymrwymo i iechyd a lles ei staff ac mae ganddi bolisi absenoldeb salwch cynhwysfawr.

TALU CYFLENWYR

Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi ymrwymo i gydymffurfio â Rheoliadau Talu Dyledion Masnachol yn Hwyr 2002. Y polisi talu yw y telir anfonebau yn unol ag amodau contract y cytunwyd arnynt, neu, lle nad oes amodau o'r fath, o fewn 30 diwrnod i fod wedi derbyn nwyddau a gwasanaethau neu gyflwyno anfoneb ddilys amdanynt, pa bynnag un sydd ddiweddaraf. Yn ystod 2010-11, talwyd 99% o'r anfonebau yn unol â'r polisi hwn. Dyma'r un ganran ag a gafwyd yn 2009-10.

CYNALIADWYEDD

Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi ymrwymo i arferion amgylcheddol da. Isod ceir enghreifftiau o'r ffordd y mae'n hybu stiwardiaeth amgylcheddol da.

- a) **Defnyddio ynni.** Fel un o nifer o denantiaid mewn bloc bychan modern o swyddfeydd, nid oes modd cael rheolaeth lawn ar y cyfleusterau gwres a golau. Ond mae gennym gyfnewidyddion gwres effeithlon iawn a reolir â thermostat ac o ran amser.
- b) **Defnyddio cerbydau.** Nid oes gan y swyddfa unrhyw gerbydau ei hun ond mae'n gorfod hurio cerbydau ar gyfer siwrneiau hwy er mwyn sicrhau'r effeithlonrwydd gorau.
- c) **Trafnidiaeth Gyhoeddus.** Lle bynnag y bo'n briodol, anogir staff i ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus.
- d) **Rheoli papur.** Caiff staff eu hannog i asesu a oes angen copi papur ac i argraffu ar ddwy ochr y papur os oes modd. Mae'r staff yn gallu cael gafael ar wybodaeth drwy ddefnyddio mewnrwyd y swyddfa sy'n golygu nad oes angen systemau dosbarthu papur.
- e) **Gwaredu Gwastraff.** Mae gweithdrefnau ar waith ar gyfer ailgylchu gwydr, caniau, poteli plastig, batris a phapur. Ceir gwared â phapur drwy gyfleusterau ailgylchu gwastraff cyfrinachol oherwydd y rheidrwydd i gadw cyfrinachedd yn y ddeddfwriaeth alluogi.

LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

Fel deiliad swydd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, rwyf yn gweithredu fel Corfforaeth Unigol. Yn ogystal â hynny, fe'm penodwyd gan y Trysorlys yn Swyddog Cyfrifyddu'r cronfeydd cyhoeddus ac yn y cyswllt hwn y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn ymddiried ynof i gyflawni fy swyddogaethau.

Y PWYLLGOR ARCHWILIO

Aelodaeth a Chylch Gorchwyl

Mae'r Pwyllgor Archwilio'n dal i gael ei gadeirio gan Laurie Pavelin CBE FCA ac mae'n darparu cefnogaeth sylweddol oherwydd ei brofiad helaeth ym maes rheolaeth ariannol a chyfrifyddu yn y sector cyhoeddus. Mae annibyniaeth y Pwyllgor yn cael ei gyfnerthu gan yr Athro Margaret Griffiths, cyn Bennaeth Ysgol y Gyfraith Prifysgol Morgannwg, sy'n dod ag arbenigedd eang ym maes y gyfraith fel y mae'n effeithio ar Gymru i'r Pwyllgor. Fel Ombwdsmon, rwy'n aros ar y Pwyllgor yn rhinwedd fy swydd fel Swyddog Cyfrifyddu.

Y gobaith oedd y byddai hyfforddiant perthnasol ar gyfer y ddau aelod annibynnol yn parhau yn ystod y flwyddyn ond cafodd y cwrs mwyaf perthnasol a oedd yn cael ei gynnig gan yr Ysgol Lywodraethu Genedlaethol ei ganslo oherwydd cyfyngiadau cyllidebol.

Mae pob aelod o'r Pwyllgor yn cwblhau datganiad blynyddol o fuddiannau ac roedd yr eitem gyntaf ar agenda unrhyw bwyllgor yn gyfle i ddatgan unrhyw fuddiant a oedd yn benodol i eitemau ar agenda'r cyfarfod hwnnw. Defnyddir yr wybodaeth a ddarperir i lunio Cofrestr Buddiannau, y gall aelodau'r cyhoedd ei harchwilio ar gais.

Ym mis Rhagfyr 2010, adolygodd y Pwyllgor Archwilio ei Gylch Gorchwyl. Gwnaethpwyd un newid bychan sydd bellach wedi'i ymgorffori.

Gan gofio y byddai swyddfa'r Ombwdsmon yn wynebu heriau ariannol yn y flwyddyn i ddod ac y byddai'r archwilwyr mewnol yn newid hefyd, gofynnwyd i'r Cadeirydd aros ymlaen am flwyddyn arall yn hytrach na gorffen ar 31 Mawrth 2011 pan fyddai ei gontract presennol yn dod i ben. Derbyniwyd y cynnig hwn.

Cyfarfodydd

Cynhaliwyd pedwar cyfarfod o'r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn. Ymhob cyfarfod derbyniodd y Pwyllgor nifer o eitemau agenda sefydlog. Roedd un o'r rhain yn ymwneud â'r Gofrestr Risg. Yn ystod y flwyddyn, gofynnodd y Pwyllgor am dderbyn y gofrestr lawn dim ond pan fydd yn adolygu'r Cynllun Archwilio Mewnol blynyddol; ar gyfer y cyfarfodydd eraill ni fyddai ond yn ystyried y risgiau uchel a chanolig a bennwyd sy'n wynebu'r swyddfa. Ystyriwyd bod hyn yn briodol yn dilyn newid i fformat y Gofrestr Risg drwy ddefnyddio codau lliw yn y gofrestr. Y prif risgiau a gafodd eu monitro yn ystod y flwyddyn oedd enw da'r swyddfa; yn yr hinsawdd economaidd bresennol, diffyg adnoddau digonol; a'r posibilrwydd y bydd y swyddfa'n colli'i

hannibyniaeth. Er bod y lefel risg bresennol i'r sefydliad yn dal yn isel, y mae tueddiad at i fyny yn y risgiau a allai effeithio ar y swyddfa.

Rhaid i adroddiadau sefydlog eraill y mae'n rhaid eu cyflwyno i'r Pwyllgor ddatgan a oes unrhyw dwyll neu golledion gan gynnwys colli data wedi dod i'r amlwg. Ni ddaeth dim i'r amlwg yn ystod blwyddyn ariannol 2010-11. Yn ogystal, caiff y Pwyllgor wybod am dendrau unigol neu gymeradwyaethau cyflenwyr enwebedig dros £5,000 ac am unrhyw asedau y ceir gwared arnynt neu eu sgrapio.

Yn ystod y flwyddyn derbyniodd y Pwyllgor adroddiadau am unrhyw faterion priodol a ddaeth dan ei gylch gorchwyl. Roedd hyn yn cynnwys papurau ar: y Cynlluniau Gweithredol a Strategol (gan gynnwys cyflwyno gwasanaeth Cwynion Cymru a'r newidiadau'n deillio o Fesur Gwneud lawn am Gamweddau'r GIG); trefniadau pensiwn; y dyletswyddau posibl o ran adrodd ar gynaliadwyedd; a'r diweddaraf am y cynllun parhad busnes.

Archwilio mewnol ac allanol

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiadau rheolaidd gan yr archwilwyr mewnol ac allanol. Cynlluniwyd gwaith RSM Tenon, yr Archwilwyr Mewnol, ar sail asesiad cyffredinol o angen a'i gyflawni drwy raglen flynyddol. Cyfeiriodd eu hadroddiadau at y fframwaith rheolaeth fewnol boddhaol yn y sefydliad a gwneud argymhellion ar gyfer gwella os oedd angen. Gan i'r trefniadau cytundebol presennol ddod i ben ar 31 Mawrth 2011, penderfynodd y Pwyllgor y byddid yn penodi Archwilwyr Mewnol am dair blynedd gyda'r dewis o barhau am ddwy flynedd arall os bydd y ddwy ochr yn cytuno i hynny. Roedd y Pwyllgor yn hapus â safon y gwasanaethau a oedd yn cael eu cynnig ac yn dilyn trefn werthuso fanwl penderfynodd gynnig y contract i Deloitte. Roedd y Pwyllgor yn awyddus i gofnodi ar ddu a gwyn eu diolchgarwch i RSM Tenon am y gwaith a wnaethpwyd ganddynt yn darparu gwasanaethau Archwilio Mewnol i'r swyddfa.

Rhaid i'r rôl archwilio allanol, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005, gael ei chyflawni gan Swyddfa Archwilio Cymru. Cyflawnwyd y gwaith hwnnw, gyda chytundeb yr Ombwdsmon, yn ystod y flwyddyn gan Grant Thornton UK LLP yn gweithredu ar ran Swyddfa Archwilio Cymru. Ystyriodd y Pwyllgor y Cyfrifon Blynnyddol a oedd yn cynnwys Datganiad y swyddfa ar Reolaeth Fewnol ar gyfer 2009-10 ynghyd ag Adroddiad Archwilio Allanol ISA260 a'r Llythyr Rheoli.

Mae gan yr Archwilwyr Mewnol ac Allanol yr hawl, os yw'n cael ei ystyried yn briodol, i godi unrhyw fater drwy bolisi mynediad agored gyda'r Cadeirydd a thrwy'r hawl i ddwyn unrhyw

fater i sylw'r Pwyllgor. Sicrhaodd y Pwyllgor, drwy adolygu rhaglenni'r Archwilwyr Mewnol ac Allanol, eu bod yn cydweithredu'n effeithiol â'i gilydd.

Prosesau monitro

Caiff y Pwyllgor wybod ymhob cyfarfod am y cynnydd sydd wedi'i wneud yn gweithredu argymhellion yr Archwilwyr Mewnol ac Allanol a hefyd y cynnydd sydd wedi'i wneud gyda'r Cynlluniau Gweithredol a Strategol. Yn ogystal, caiff y Pwyllgor wybod ymhob cyfarfod am unrhyw faterion sy'n disgwyl sylw.

Cafodd y Pwyllgor gopi o Adroddiad Blyneddol 2009-10.

RHOI GWYBOD AM DDIGWYDDIADAU SY'N YMWNEUD Â DATA PERSONOL

Mae Swyddfa'r Cabinet wedi cyhoeddi canllawiau ar roi gwybod ynghylch unrhyw achos o golli data personol a warchodwyd, datgelu hynny heb awdurdod ac unrhyw achos o gael gwared â data personol a warchodwyd mewn modd anniogel. Y ddyletswydd yw adrodd ynghylch y canlynol:

- manylion unrhyw achosion sy'n ymwneud â data personol yr adroddwyd yn eu cylch wrth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn ystod y flwyddyn ariannol;
- achosion wedi'u cofnodi sy'n ymwneud â data personol a warchodwyd nas adroddwyd yn ffurfiol yn eu cylch wrth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn ystod y flwyddyn ariannol; ac
- unrhyw achosion sy'n ymwneud â data personol a warchodwyd yn y blynedd oedd ariannol blaenorol.

Gallaf ddatgan nad wyf yn ymwybodol o unrhyw ddigwyddiadau yr oedd angen adrodd arnynt yn 2010-11. Gellir gweld y polisi diogelwch gwybodaeth ar gyfer y sefydliad ar y wefan yn www.ombudsman-wales.org.uk

CYFARWYDDYD CYFRIFON

Dan y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyflwynwyd gan Drysorlys EM dyddiedig 21 Rhagfyr 2006, roedd yn ofynnol i mi ddarparu cyfrifon ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2011 yn unol ag egwyddorion cyfrifyddu a gofynion datgelu'r argraffiad o Lawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth (y FReM) a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM a oedd mewn grym yn 2010-11.

Paratowyd y cyfrifon hyn er mwyn:

(a) rhoi darlun teg a chywir o'r sefyllfa ar 31 Mawrth 2011, ac o'r alldro adnoddau net, yr adnoddau a ddefnyddiwyd i gyflawni amcanion, enillion a cholledion cydnabyddedig a'r llifoedd arian ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben bryd hynny; a

(b) datgelu gwybodaeth am unrhyw wariant neu incwm o bwys na chafodd ei ddefnyddio i'r dibenion y'u bwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru neu drafodion o bwys nad oeddynt yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

ARCHWILWYR

Archwilydd Cyffredinol Cymru yw Archwilydd Allanol cyfrifon Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru fel y nodwyd ym mharagraff 7 o Atodlen 1 i Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005. Ar ôl ymgynghori â'r Swyddfa hon, penododd Swyddfa Archwilio Cymru Grant Thornton UK LLP i wneud y gwaith ar eu rhan er mai'r Archwilydd Cyffredinol sy'n dal â'r cyfrifoldeb cyffredinol. Cost archwiliad 2010-11 oedd £19.2k. Wynebwyd cost ychwanegol o £5k ar gyfer cwblhau archwiliad 2009-10 gan roi ffi derfynol o £21.6k ar gyfer 2009-10. Cafodd y setliad terfynol o £1k ar gyfer gwaith archwilio'n ymwneud â'r newid i ddefnyddio'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (*IFRS*) ei dalu yn 2010-11.

Hyd y gwn i, rwyf wedi cymryd pob cam y dylwn i fod wedi'u cymryd i dynnu sylw'r archwilwyr at unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod yr archwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Mae gennyf gytundeb lefel gwasanaeth ar wahân gyda Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer darparu cyngor sy'n ymwneud ag adnoddau dynol. Talwyd £1k (2009-10 £1k) i Swyddfa Archwilio Cymru dan y cytundeb hwnnw.

Y DYFODOL

Bwriadaf drafod dau faes â Llywodraeth newydd Cymru lle credaf fod anghysonderau yn fy awdurdodaeth. Yng Nghymru ar hyn o bryd caiff preswilydd mewn cartref gofal y mae'r wladwriaeth yn talu am ei ofal gwyno i mi ond ni chaiff preswilydd sy'n talu am ei arhosiad ei hun yn y cartref gofal wneud hynny. Ail faes yw hosbisau. Er bod ysbytai preifat o'r fath yn elusennau cofrestredig, maent serch hynny yn cael arian cyhoeddus. Ar hyn o bryd nid yw

defnyddwyr y gwasanaeth yn gallu cwyno wrth rywun y tu allan i'r hosbis. Mae'n ymddangos i mi y dylai pobl sy'n derbyn eu gwasanaethau allu troi at gorff annibynnol i ystyried cwynion nad ydynt wedi'u datrys.

A'r problemau ariannu cyfredol yn wynebu'r sector cyhoeddus i gyd, rwy'n gweithio i gadw cyfanswm cost rhedeg y swyddfa ar yr un lefel ag a neilltuwyd i'r swyddfa ar gyfer yr holl wariant heb gynnwys costau darpariaethau gan fod hwn yn faes nad oes gennyf reolaeth o gwbl drosto.

Er bod rhywfaint o wybodaeth wedi'i darparu ar y newidiadau arfaethedig yn sgil adolygiad y Llywodraeth o drefniadau pensiwn y sector cyhoeddus, mae rhagor o newidiadau'n debygol. Yn achos y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol sydd wedi cau i aelodau newydd, bydd angen sicrhau y gellir talu am unrhyw ddiffyg yn yr arian pan fydd yr aelod gweithredol olaf yn gadael y cynllun. Rhagwelir y bydd hyn yn digwydd yn 2017-18. Mae'r diffyg wedi codi oherwydd bod pobl yn byw'n hirach a gostyngiad yng ngwerth asedau'r Gronfa Bensiwn. Fy mwriad, mewn cytundeb â Chyngor Sir Caerdydd, sef gweinyddwr y cynllun, yw gwneud taliadau blynyddol yn cychwyn yn 2012-13 yn hytrach na gohirio'r setliad nes i'r aelod gweithredol olaf roi'r gorau i gyfrannu.

Mae'r swyddfa wedi gwneud trefniadau i gydymffurfio â gofynion Deddf Llwgrwobrwy a ddaeth i rym ar 1 Gorffennaf 2011.

Yn yr hinsawdd bresennol o ostyngiadau yng nghyllid y sector cyhoeddus, fy mwriad yw sicrhau bod annibyniaeth fy rôl yn cael ei chynnal a bod adnoddau digonol ar gael i gyflawni fy swyddogaethau.

Peter Tyndall
Swyddog Cyfrifyddu

25 Gorffennaf 2011

DATGANIAD CYFRIFOLDEBAU'R SWYDDOG CYFRIFYDDU

Dan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005, fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, mae'n rhaid i mi baratoi cyfrifon adnoddau ar gyfer pob blwyddyn ariannol yn nodi'r adnoddau a brynwyd, a oedd yn cael eu dal neu y cafwyd gwared â nhw yn ystod y flwyddyn a'r defnydd o adnoddau gan y swyddfa yn ystod y flwyddyn ar y ffurf a'r sail a nodir yn y Cyfarwyddyd Cyfrifon. Paratwir y cyfrifon adnoddau ar sail cronïadau a rhaid iddynt roi darlun gwir a theg o sefyllfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a'i alldro adnoddau net, yr adnoddau a wariwyd ar amcanion, newidiadau yn ecwiti trethdalwr, a'r llifoedd arian am y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, fel y Swyddog Cyfrifyddu, rhaid i mi gydymffurfio â gofynion *Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth* ac yn enwedig:

- glynu wrth y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyflwynwyd gan Drysorlys EM gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a defnyddio polisiau cyfrifyddu addas yn gyson;
- gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol;
- nodi a ddilynwyd safonau cyfrifyddu perthnasol fel y nodir yn *Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth*, a datgelu ac esbonio unrhyw wyriadau o bwys yn y cyfrifon; a
- pharatoi'r cyfrifon ar sail busnes hyfyw.

Mae fy nghyfrifoldebau perthnasol fel Swyddog Cyfrifyddu yn cynnwys cyfrifoldeb dros briodoldeb a rheoleidd-dra arian cyhoeddus Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, dros gadw cofnodion priodol a diogelu asedau'r swyddfa fel y nodir ym memorandum y Swyddogion Cyfrifyddu a ddarperir gan Drysorlys EM a'i gyhoeddi yn "*Rheoli Arian Cyhoeddus*", fel y'i nodir yn Neddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005.

ADRODDIAD TALIADAU CYDNABYDDIAETH

Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn darparu y caf fy nhalu gan Cronfa Gyfunol Cymru, ynghyd â'r costau cysylltiedig sy'n ymwneud ag yswiriant gwladol a chostau fy mhensiwn. Fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, caf fy nhalu ar lefel gyfwerth â Grŵp 5 y Raddfa Gyflog Farnwrol. Mae'r costau hyn wedi'u cynnwys yn Nodyn 5 dan Costau Gweinyddol Eraill fel Gwasanaethau Sefydlog y Gronfa Gyfunol. Mae tâl y Cyfarwyddwyr wedi'i osod ar 70% o'm cyflog er 1 Tachwedd 2008.

*Mae'r tabl isod yn dangos manylion tâl aelodau'r Uwch Dîm Rheoli yn ystod 2010-11:

Enw	Dyddiad penodi a thelerau'r contract	2010-11 Cyflog £000	2010-11 Buddion Ymarferol £	2009-10 Cyflog £000	2009-10 Buddion Ymarferol £
Peter Tyndall	21/04/2008. Cyfnod penodol tan 20 Ebrill 2015	135-140	Dim	135-140	Dim
Elizabeth Thomas	01/01/2004 Contract Parhaol	95-100	Dim	95-100	Dim
Andrew Walsh	01/01/2004 Contract Parhaol - rhan-amser, 30 awr yr wythnos. Wedi ymddeol ar 1 Ebrill 2011	75-80	Dim	95-100	Dim

* Isod dangosir hawliau pensiwn yr unigolion a enwir uchod:

Enw	Pensiwn cronnus yn 60 oed ar 31 Mawrth 2011 £000	Gwir gynnydd yn y pensiwn blynnyddol £000	CETV ar 31 Mawrth 2011 £000	CETV diwygiedig ar 31 Mawrth 2010 £000	CETV ar 31 Mawrth 2010 £000	Gwir gynnydd yn y CETV £000
Peter Tyndall	62.5-65.0	1.5-2.0	798	717	717	15
Elizabeth Thomas	45.0-47.5	0-2.5	827	765	806	1
Andrew Walsh	12.5-15.0	0-2.5	247	220	230	19

Newidiwyd y ffactorau actiwaraid a ddefnyddid i gyfrifo'r Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETVs) yn 2010-11. Mae'r CETVs ar 31/3/2010 a 31/3/11 ill dau wedi cael eu cyfrifo gan ddefnyddio'r ffactorau newydd, er cysondeb. Felly mae'r CETV ar 31/3/10 yn wahanol i'r ffigur cyfatebol yn adroddiad y llynedd a gyfrifwyd gan ddefnyddio'r ffactorau blaenorol.

Mae'r ffigurau pensiwn a roddir yn y tabl uchod yn dangos yr hawliau llawn. Darperir gwybodaeth ategol yn y Nodiadau isod.

Nodiadau

Trefniadau pensiwn

Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil

Darperir y buddion pensiwn hyn dan drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil.

Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETVs)

Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth cyfalafedig buddion y cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol, wedi ei asesu gan actiwari. Y buddion y pennir eu gwerth yw buddion cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn amodol sydd i'w dalu o'r cynllun i ŵr neu wraig. Taliad yw'r CETV a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn i bensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion a gronnwyd yn ei gynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddion y mae'r unigolyn wedi eu cronni o ganlyniad i'w aelodaeth gyflawn o'r cynllun pensiwn, nid dim ond ei wasanaeth mewn swydd uwch y mae datgelu yn berthnasol iddi. Mae'r ffigurau'n cynnwys gwerth unrhyw fuddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall a drosglwyddwyd gan yr unigolyn i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddion pensiwn ychwanegol a gronnwyd lle prynodd y gweithiwr flynyddoedd ychwanegol o wasanaeth pensiwn yn y cynllun o'i boced ei hun. Cyfrifir y CETVs yn ôl y canllawiau a'r fframwaith a ragnodir gan Sefydliad a Chyfadrann yr Actiwariaid ac nid ydynt yn ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu bosibl yn y buddion o ganlyniad i'r Dreth Lwfans Oes a all fod yn ddyledus pan gymerir buddion pensiwn.

Y cynnydd gwirioneddol yn y gwerthoedd trosglwyddo sy'n gyfwerth ag arian parod

Mae hwn yn adlewyrchu'r cynnydd yn y pensiwn cronnus a ariennir gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys unrhyw gynnydd oherwydd chwyddiant, cyfraniadau'r gweithiwr (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac fe'i cyfrifir drwy ddefnyddio ffactorau prisiau cyffredin y farchnad ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

Buddion ymarferol

Mae gwerth ariannol unrhyw fuddion o fath arall yn cynnwys unrhyw wariant a gafwyd ac sy'n cael ei drin gan Gyllid a Thollau EM fel enillion trethadwy. Ni chafwyd gwariant o'r fath.

Y Pwyllgor Archwilio

* Yn ystod y flwyddyn, rhoddwyd taliad heb fod yn bensiynadwy o £2975 i Mr Pavelin fel cadeirydd annibynnol y Pwyllgor Archwilio, yn seiliedig ar gyfradd ddyddiol (2009-10 £2975). Talwyd £1250 (2009-10 £1250) i'r Athro Margaret Griffiths am ei gwaith fel aelod o'r Pwyllgor Archwilio, hwnnw eto'n seiliedig ar gyfradd ddyddiol heb fod yn bensiynadwy.

Dyfarniadau cyflog

Mae cyflog y Cyfarwyddwyr yn gysylltiedig â thâl yr Ombwdsmon sydd yn ei dro'n seiliedig ar gyfraddau cyflog barnwyr. Ni chafwyd codiadau yn ystod y flwyddyn. Mae gweddill cyflogau'r swyddfa'n gysylltiedig â dyfarniadau cyflog a roddir i weithwyr sy'n gweithio ym maes Llywodraeth Leol yng Nghymru a Lloegr. Yn unol â'r drefn honno, ni chafwyd codiadau cyflog yn 2010-11.

Ymgynghori â staff

Mae gennym broses ymgynghori â staff sy'n cynnwys yr undebau llafur cydnabyddedig.

*Eitemau yn amodol ar archwiliad

Peter Tyndall

Swyddog Cyfrifyddu

25 Gorffennaf 2011

DATGANIAD RHEOLAETH FEWNOL

Cwmpas y Cyfrifoldeb

Fel y Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n gyfrifol am gynnal system reolaeth fewnol gadarn sy'n cefnogi'r broses o gyflawni polisiau, nodau ac amcanion Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, gan hefyd ddiogelu'r asedau a'r arian cyhoeddus yr wyf i yn bersonol gyfrifol amdanynt, yn unol â'r cyfrifoldebau a roddwyd i mi yn "Rheoli Arian Cyhoeddus".

Rwy'n annibynnol ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ond yn atebol i'w Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus am y defnydd o adnoddau a ddarperir i gefnogi fy swyddogaethau statudol. Wrth bennu lefel yr adnoddau sydd ar gael i'r sefydliad, ystyrir y cynigion cyllideb gan Bwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â'r broses a nodir yn Neddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005.

Pwrrpas y system rheolaeth fewnol

Mae'r system rheolaeth fewnol wedi ei dyfeisio i reoli risg i raddau rhesymol ac nid i ddileu pob risg o fethu â chyflawni polisiau, nodau ac amcanion; felly, dim ond sicrwydd rhesymol, ac nid absoliwt, o effeithiolrwydd y gall ei gynnig. Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus a ddyfeisiwyd i ganfod a blaenoriaethu unrhyw risg i gyflawni fy mhollisiau, nodau ac amcanion, i werthuso'r tebygolrwydd y bydd y risgiau hynny'n cael eu gwireddu, a'u heffaith pe bai hynny'n digwydd, ac i'w rheoli'n effeithiol, yn effeithlon ac yn ddarbodus. Mae'r system rheolaeth fewnol wedi bod mewn grym gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2011, a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r cyfrifon hyn, ac mae'n cydymffurfio â chyfarwyddyd y Trysorlys.

Y gallu i ddelio â risg

Rwy'n parhau i wella'r trefniadau ar gyfer cael rheolaeth fewnol gadarn er mwyn sicrhau bod y Swyddfa'n gallu canfod, asesu a rheoli risg yn effeithiol. Wrth ymgymryd â'r cyfrifoldeb hwn yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2011 cefais gefnogaeth dau gyfarwyddwr yr wyf wedi dirprwyo rhai o'm cyfrifoldebau iddynt. O 1 Ebrill 2011 ymlaen, bydd y cyfrifoldeb hwn yn cael ei ysgwyddo gan un cyfarwyddwr yn sgil ymddeoliad Andrew Walsh ar 31 Mawrth 2011. Hefyd, y Tîm Rheoli yr wyf yn ei gadeirio sy'n gyfrifol am oruchwylio'r gwaith rheoli risg. Rwy'n fodlon bod y systemau sydd ar waith yn canfod y

risgiau posib yn fuan ac yn caniatáu, trwy reolaeth weithredol, i gamau priodol gael eu cymryd er mwyn lleihau i'r eithaf unrhyw effaith andwyol ar y swyddfa.

Mae'r Pwyllgor Archwilio yn dal i adolygu'n rheolaidd pa mor agored yw'r sefydliad i risg. Yn fy adroddiad sy'n ffurfio rhan o'r ddogfen hon, ceir adolygiad o waith y Pwyllgor Archwilio. Yn ystod y flwyddyn, adolygwyd y cylch gorchwyl a gwnaethpwyd newid bychan. Rwyf wedi parhau i fanteisio ar brofiad sylweddol y cadeirydd Mr Laurie Pavelin CBE FCA mewn rheolaeth ariannol yn y sector cyhoeddus ac ar arbenigedd cyfreithiol yr aelod annibynnol arall, yr Athro Margaret Griffiths.

Yn unol â "Rheoli Arian Cyhoeddus" rwy'n cael fy nghefnogi gan y Cyngorydd Ariannol. Mae'n gyfrifydd cymwysedig ac yn ymgymryd â chyfrifoldebau'r cyfarwyddwr cyllid proffesiynol fel sy'n cael ei nodi yn y ddogfen honno.

Y fframwaith risg a rheolaeth

Er mwyn sicrhau bod prosesau priodol ar waith rwyf wedi derbyn cymorth sylweddol gan y Pwyllgor Archwilio a chan RSM Tenon, yr Archwilwyr Mewnol. Mae cwrmpas eu gwaith yn sicrhau bod y prosesau a'r gweithdrefnau priodol ar waith ac yn gweithredu'n effeithiol. Mae enw da a hygyrdd y swyddfa'n allweddol i'w llwyddiant yn annog pobl i gwyno a chael cyrff y sector cyhoeddus i dderbyn yr adroddiadau a gyhoeddir. Mae datblygiadau i systemau a gweithdrefnau i wella a chyflymu'r ffordd yr ymdrinnir â chwynion wedi cael eu gweithredu yn ystod y flwyddyn a darparant ffocws cryfach ar gyfer cynnal enw da a hygyrdd. Adolygir y fframwaith llywodraethu corfforaethol bob blwyddyn gan yr Archwilwyr Mewnol.

Daeth contract RSM Tenon i ben ar 31 Mawrth 2011. Yn dilyn proses dendro, roedd Deloitte UK yn llwyddiannus a dechreusant ar eu rôl fel Archwilwyr Mewnol ar 1 Ebrill 2011.

Dyma fesurau'r fframwaith risg a rheolaeth sydd ar waith:

- (a) proses gynllunio ar gyfer y sefydliad i werthuso targedau, cynlluniau a pherfformiad blaenorol ac i osod targedau a chynlluniau ar gyfer y dyfodol fel y nodwyd yn y Cynllun Strategol ar gyfer 2009-10 i 2011-12. Mae hyn yn sicrhau yr adolygir nodau ac amcanion y swyddfa'n rheolaidd;
- (b) cynnal proses o asesu risg sy'n golygu mapio meysydd risg allweddol fel y maent yn effeithio ar gyflawni amcanion y sefydliad; a

- (c) cynllun parhad busnes ar gael sy'n cael ei adolygu a'i brofi'n rheolaidd i'n galluogi i adfer gam wrth gam o ddigwyddiadau a fyddai'n amharu ar ein gallu i weithredu.

Risg gorfforaethol bwysig sy'n parhau i fod yn amlwg iawn yw Diogelwch Gwybodaeth. Mae'r Swyddfa hon wastad wedi cynnal lefel uchel o ddiogelwch oherwydd y rhwymedigaethau a geir yn adran 26 o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 ynghylch peidio â datgelu gwybodaeth ac eithrio'r hyn a nodir yn benodol. Mae'r polisi ar ddiogelu gwybodaeth wedi cael ei ddiwygio ac wedi cael ei adolygu gan yr Archwilwyr Mewnol.

Adolygu effeithiolrwydd

Fel y Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Seilir fy adolygiad o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol ar waith yr archwilwyr mewnol a'r Cyfarwyddwyr sy'n fy helpu mewn perthynas â'm cyfrifoldeb dros ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth fewnol, ac ar sylwadau a gafwyd gan yr archwilwyr allanol yn eu llythyr rheolaeth ac adroddiadau eraill.

Meddai Adroddiad Blynnyddol RSM Tenon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2011 "rydym yn fodlon bod gwaith archwilio mewnol digonol wedi'i gynnal i'n galluogi i ddod i gasgliad rhesymol am ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd trefniant Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Ar gyfer y 12 mis a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2011, ar sail y gwaith rydym wedi'i wneud, mae ein barn ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth (ar sail y drefn goleuadau traffig) fel a ganlyn:

Llywodraethu	Digonol ac effeithiol	Gwyrdd
Rheoli Risg	Digonol ac effeithiol	Gwyrdd
Rheolaeth	Digonol ac effeithiol	Gwyrdd"

Fe'm cynghorwyd ynghylch goblygiadau canlyniadau fy adolygiad o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol gan y Pwyllgor Archwilio ac mae cynllun ar waith i roi sylw i wendidau a sicrhau bod y system yn cael ei gwella'n barhaus. Caiff y cynllun ei fonitro gan y Pwyllgor Archwilio wrth iddynt ystyried yn rheolaidd adroddiad sy'n nodi'r camau a gymerwyd ar faterion a godwyd gan yr Archwilwyr Mewnol ac Allanol. Yn ogystal, mae'r archwilwyr mewnol yn cynnal adolygiadau achlysurol o'r camau a gymerir i weithredu'r argymhellion

sydd wedi'u derbyn tra mae'r archwilwyr allanol yn adolygu unrhyw faterion a godir mewn blynyddoedd ariannol dilynol.

Problemau Sylweddol o ran Rheolaeth Fewnol

Gallaf adrodd nad oedd gwendidau sylweddol yn system rheolaeth fewnol y swyddfa yn 2010-11 a effeithiodd ar allu'r swyddfa i gyflawni ei pholisïau, ei nodau a'i hamcanion.

Peter Tyndall
Swyddog Cyfrifyddu

25 Gorffennaf 2011

Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru

Ardystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2011 o dan baragraff 17(2) o atodlen 1 i Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) (2005). Mae'r rhain yn cynnwys y Crynodeb o'r Alldro Adnoddau, y Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr, y Datganiad Sefyllfa Ariannol, y Datganiad Llifoedd Arian, y Datganiad Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr, a'r nodiadau cysylltiedig. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisïau cyfrifyddu a nodir ynddynt. Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad ar Gydabyddiaeth y nodir ei bod wedi'i harchwilio yn yr adroddiad hwnnw.

Priod gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu a'r archwilydd

Fel yr eglurir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynyddol, sy'n cynnwys yr Adroddiad ar Gydabyddiaeth, a'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) (2005) a chyfarwyddiadau a wnaed gan Drysorlys EM o dan y Ddeddf honno, ac am sicrhau rheoleidd-dra'r trafodion ariannol.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r adroddiad ar gydabyddiaeth i'w harchwilio yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i mi gydymffurfio â Safonau Moesegol y Bwrdd Arferion Archwilio ar gyfer Archwilydd.

Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

Cynhelir archwiliad er mwyn cael tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol a'r nodiadau cysylltiedig i roi sicrwydd rhesymol nad oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol, boed hynny drwy dwyll neu wall. Mae hyn yn cynnwys asesu'r canlynol: pa un a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a pha un a ydynt wedi'u cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymoldeb amcangyfrifon cyfrifyddu sylweddol a wnaed gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru; a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol.

Mae hefyd yn ofynnol i mi gael digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Yn ogystal, darllenaf yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn Adroddiad yr Ombwdsmon a'r rhan heb ei harchwilio o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth er mwyn nodi anghysondebau perthnasol â'r datganiadau ariannol archwiliedig. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol amlwg, ystyriaf y goblygiadau i'm hadroddiad.

Barn ar y Datganiadau Ariannol

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar 31 Mawrth 2011 a'i ofyniad net am arian parod, ei Alldro Adnoddau Net, Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr a'i lifoedd arian parod am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Drysorlys EM a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) (2005).

Barn am Reoleidd-dra

Yn fy marn i, ymhob ffordd berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i:

- mae'r rhan o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Drysorlys EM a wnaed o dan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) (2005);
- mae'r wybodaeth sy'n cynnwys Adroddiad yr Ombwdsmon a'r rhan heb ei harchwilio o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth, a gynhwysir yn yr Adroddiad Blynyddol, yn gyson â'r datganiadau ariannol.

Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- nid yw'r Datganiad am Reolaeth Fewnol yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys EM;
- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu priodol;

- ni ddatgelwyd gwybodaeth a ddynodwyd gan Drysorlys EM o ran cydnabyddiaeth a thrafodion eraill; neu
- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

Adroddiad

Nid oes gennyf sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru sy'n gyfrifol am gynnal gwefan

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ac am sicrhau cywirdeb y cynnwys; nid yw'r gwaith a wneir gan yr archwilwyr yn cynnwys ystyried y materion hyn ac, o'r herwydd, nid yw'r archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb dros unrhyw newidiadau a allai fod wedi eu gwneud i'r datganiad cyfrifon ers iddo gael ei osod ar y wefan am y tro cyntaf.

Huw Vaughan Thomas
Archwilydd Cyffredinol Cymru
27 Gorffennaf 2011

24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

CRYNODEB O'R ALLDRO ADNODDAU

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2011

	Amcangyfrif Diwygiedig			Aldro				2009-10 Diwygiedig
	Gwariant Gros	Incwm	Cyfan swm Net	Gwariant Gros	Incwm	Cyfan swm Net	Cyfanswm yr alldro net o'i gymharu â'r arbediad/ (gormodedd) a amcangyfrifwyd	
	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000
Costau Gweinyddol	3802	(42)	3760	3908	(37)	3871		3486
Llai Gwasanaetha u Cronfa Gyfunol Cymru a rennir				187		187		191
Cyfanswm Adnoddau	3802	(42)	3760	3721	(37)	3684	76	3295
Gofyniad Arian Parod Net Nodyn 3						4105		3275

Incwm anweithredol a derbyniadau nas ystyrir yn incwm gweithredu

	Gwariant Gros	Incwm	Cyfan wm Net	Gwariant Gros	Incwm	Cyfan swm Net	Cyfanswm yr alldro net o'i gymharu â'r arbediad/ (gormodedd) a amcangyfrifwyd	
	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000
Gwerthu asedau sefydlog						-	-	-

Mae'r nodiadau ar dudalennau 28 i 51 yn rhan o'r datganiadau hyn

Mae ffigurau cymharol ar gyfer 2009-10 wedi'u hailddatgan i ddangos y newid yn y Polisi Cyfrifyddu (Gweler Nodyn 2).

DATGANIAD GWARIANT NET CYNHWYSFAWR*ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2011*

	Nodyn	2010-11	2009-10
		Diwygiedig	
		£000	£000
Costau gweinyddol			
Costau staff	4	2385	2235
Costau gweinyddol eraill heb fod yn rhai staff	5	1523	1260
Costau Gweinyddol Gros		3908	3495
 Incwm Gweithredu	 6	 (37)	 (9)
 Costau Gweinyddol Net		 3871	 3486
 COST GWEITHREDU NET a'r			
ALLDRO ADNODDAU NET		3871	3486

Mae'r holl weithgareddau a ddechreuwyd o fewn y cyfnod yn parhau.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 28 i 51 yn rhan o'r datganiadau hyn

Mae ffigurau cymharol ar gyfer 2009-10 wedi'u hailddatgan i ddangos y newid yn y Polisi Cyfrifyddu (Gweler Nodyn 2).

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru Datganiadau Ariannol 2010-11

DATGANIAD SEFYLLFA ARIANNOL

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2011

	Nodyn	2010-11		2009-10	
		£000	£000	£000	£000
Asedau anghyfredol					
Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar	8	266		203	
Asedau anniriaethol	9	262		14	
Symiau derbyniadwy sy'n dod yn ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn	10	52		2	
Cyfanswm yr asedau anghyfredol			580		219
Asedau Cyfredol					
Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill	10	147		169	
Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod	11	0		10	
Cyfanswm yr asedau cyfredol			147		179
Cyfanswm asedau			727		398
Rhwymedigaethau cyfredol					
Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill	12	(101)		(102)	
Cyfrif banc yn y coch	11	0		(5)	
Cyfanswm y rhwymedigaethau cyfredol			(101)		(107)
Cyfanswm yr asedau llai rhwymedigaethau cyfredol			626		291
Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill sy'n ddyledus ar ôl blwyddyn	12	(25)		(30)	
Darpariaethau	13	(507)		(543)	
			(532)		(573)
			94		(282)
Gwarged /(Diffyg) y Gronfa Bensiwn	4		(410)		(850)
Cyfanswm yr asedau llai rhwymedigaethau			(316)		(1132)
Ecwiti Trethdalwyr					
Cronfa Gyffredinol			(316)		(1132)

Peter Tyndall
Swyddog Cyfrifyddu

25 Gorffennaf 2011

Mae'r nodiadau ar dudalennau 28 i 51 yn rhan o'r datganiadau hyn

Nid yw'r newid yn y Polisi Cyfrifyddu a ddisgrifir yn Nodyn 2 yn cael effaith ar y Datganiad hwn.

DATGANIAD LLIFOEDD ARIAN

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2011

	Nodyn	2010-11	2009-10
		£000	£000
All-lif arian net o weithgareddau gweithredu	14	(3644)	(3239)
Llif arian net o weithgareddau buddsoddi	15	(461)	(41)
Cyllid gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru	16	4100	3256
(Lleihad) Cynnydd mewn arian parod a'r hyn sy'n			
gyfwerth ag arian parod	16	(5)	(24)
Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r cyfnod		5	29
Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y cyfnod		0	5

Mae'r nodiadau ar dudalennau 28 i 51 yn rhan o'r datganiadau hyn

Nid yw'r newid yn y Polisi Cyfrifyddu a ddisgrifir yn Nodyn 2 yn cael effaith ar y Datganiad hwn.

DATGANIAD NEWIDIADAU YN ECWITI TRETHDALWYR

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2011

	2010 -11	2009 -10
	£000	Diwygiedig £000
Balans ar 1 Ebrill 2010	<u>(1132)</u>	<u>(848)</u>
Newidiadau yn ecwiti trethdalwyr		
Costau gweithredu net	(3871)	(3486)
Cyllid gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru	4100	3256
Yn ddyledus i Gronfa Gyfunol Cymru		
-Arian parod	0	(5)
-Incwm anweithredol	0	-
Gwasanaethau Cronfa Gyfunol Cymru a rennir	187	191
(Diffyg) / gwarged actiwaraid	400	(240)
Cyfanswm yr incwm a'r costau cydnabyddedig am y flwyddyn	<u>816</u>	<u>(284)</u>
Balans ar 31 Mawrth 2011	<u>(316)</u>	<u>(1132)</u>

Mae'r Nodiadau ar dudalennau 28 i 51 yn rhan o'r datganiadau hyn

Mae ffigurau cymharol ar gyfer 2009-10 wedi'u hailddatgan i ddangos y newid yn y Polisi Cyfrifyddu (gweler Nodyn 2).

NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL

1. Datganiad am y Polisiâu Cyfrifyddu

Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi cael eu paratoi yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (y Llawlyfr) a gyhoeddir gan Drysorlys EM sydd mewn grym ar gyfer 2010-11. Mae'r polisiâu cyfrifyddu yn y Llawlyfr yn defnyddio Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol fel y maent wedi cael eu mabwysiadu neu eu dehongli ar gyfer y sector cyhoeddus. Lle mae'r Llawlyfr yn caniatáu dewis polisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu y tybiwyd iddo fod yr un mwyaf priodol i amgylchiadau penodol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru er mwyn gallu rhoi darlun gwir a theg. Disgrifir y polisiâu cyfrifyddu arbennig sydd wedi eu mabwysiadu gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru isod. Fe'u defnyddiwyd yn gyson wrth ddelio ag eitemau yr ystyriwyd eu bod o bwys mewn perthynas â'r cyfrifon.

1.1 Confensiwn Cyfrifyddu

Paratowyd y cyfrifon hyn dan y confensiwn cost hanesyddol, gan ei addasu i ystyried unrhyw achos lle cafodd gwerth yr asedau sefydlog eu hailbrisio yn ôl eu gwerth i'r busnes drwy gyfeirio at eu costau cyfredol.

1.2 Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar

Mae gwariant ar eiddo, peiriannau a chyfarpar yn cael ei gyfalafu lle disgwylir i'r hyn a brynir fod ag oes ddefnyddiol o fwy na blwyddyn a lle mae'r gost yn fwy na £1k. Gall asedau sy'n costio llai na £1k gael eu cyfalafu ar yr amod eu bod yn rhai cyfalaf a'u bod yn rhan o gynllun mwy sydd â chyfanswm dros £1k. Dangosir yr asedau ar sail eu cost llai lwfans am ddibrisiant. Adeg eu cydnabod ar y cychwyn mesurir asedau sefydlog ar sail eu cost gan gynnwys costau megis costau gosod, y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i fod yn rhai a ddefnyddiwyd i'w cael i weithio ar gyfer y defnydd y bwriadwyd hwynt. Wrth adolygu costau'r asedau sefydlog a gaffaelwyd yn flaenorol a'r prisiau a dalwyd am yr eitemau newydd a brynwyd yn ystod y flwyddyn, nid oes gwahaniaeth o bwys rhwng gwerth llyfr net hanesyddol yr asedau a'u cost adnewyddu llai dibrisiant.

1.3 Dibrisiant

Caiff asedau eu dibrisio yn ôl cyfraddau a fydd yn eu gostwng i sero neu, os yw'n berthnasol, i amcangyfrif o'u gwerth gweddillol ar sail llinell syth dros eu hoes ddefnyddiol dybiedig yn dilyn taliad dibrisiant blwyddyn lawn cychwynnol ym mlwyddyn eu prynu. Caiff asedau yn ystod y gwaith adeiladu eu dibrisio o'r flwyddyn y defnyddir yr ased gyntaf. Ac eithrio lle nodir hynny'n wahanol, tybir bod oes asedau fel a ganlyn:

Peiriannau	10 mlynedd neu gyfnod y brydles os yw'n llai
Dodrefn a ffitiadau eraill	10 mlynedd neu gyfnod y brydles os yw'n llai ar gyfer ffitiadau
Cyfrifiaduron a chyfarpar arall	3 i 10 mlynedd

1.4 Asedau anniriaethol

Mae trwyddedau meddalwedd cyfrifiadurol a brynir a meddalwedd a ddatblygir yn cael eu cyfalafu lle gwerir £1k neu ragor a'r oes ddefnyddiol yn fwy na blwyddyn. Gall asedau anniriaethol sy'n costio llai na £1k gael eu cyfalafu gyhyd â'u bod yn asedau cyfalaf a'u bod yn rhan o gynllun mwy sydd â chyfanswm dros £1k. Caiff asedau anniriaethol eu hadolygu'n flynyddol ar gyfer lleihad yn eu gwerth (*impairment*) a chânt eu datgan ar sail cost hanesyddol wedi'i hamorteiddio. Caiff trwyddedau meddalwedd eu hamorteiddio dros gyfnod y drwydded a'u hoes economaidd ddefnyddiol, pa un bynnag yw'r byrraf. Caiff meddalwedd a ddatblygir ei hamorteiddio dros yr oes ddefnyddiol amcangyfrifedig. Yn ystod blwyddyn eu prynu, gwneir taliad amorteiddio blwyddyn lawn gyda'r gweddill yn cael ei amorteiddio ar sail llinell syth dros weddill yr oes ddisgwyliedig.

1.5 Tâl Cyfalaf

Ers 1 Ebrill 2010 does dim rhaid cynnwys tâl cyfalaf bellach. Yn 2009-10, cafodd credyd, a oedd yn adlewyrchu cost y cyfalaf a ddefnyddid gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, ei gynnwys yn y costau gweithredu. Cafodd y tâl ei gyfrifo yn ôl y gyfradd wirioneddol a bennir gan Drysorlys EM (3.5% ar hyn o bryd) ar sail swm cario cyfartalog yr holl asedau, llai rhwymedigaethau ac eithrio balansau arian parod a symiau i'w hildio i'r Gronfa Gyfunol.

1.6 Treth ar Werth

Nid yw Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi'i gofrestru ar gyfer TAW. Felly datgelir gwariant yn cynnwys TAW.

1.7 **Pensiynau**

Mae'r ymrwymadau pensiwn i staff blaenorol a phresennol yn cael eu cyflawni drwy dan ddarpariaethau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil, sy'n bennaf yn un anghyfrannol a heb ei ariannu, drwy Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a weinyddir drwy Gynllun Pensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg (y Gronfa), a thrwy daliadau uniongyrchol i ddau Gomisiynydd blaenorol dros Weinyddu Lleol yng Nghymru ac un buddiolwr sy'n dal yn fyw. Datgelir y manylion llawn yn y Nodiadau ar gyfer y Cyfrifon. Caiff costau darparu'r pensiynau hyn eu cynnwys yn y Datganiad Costau Gweithredu.

1.8 **Costau gadael yn gynnar**

Lle mae'n ofynnol i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru dalu costau buddion ychwanegol sy'n fwy na'r buddion arferol a delir dan y cynllun pensiwn priodol i weithwyr sy'n ymddeol yn gynnar, caiff y costau hyn eu cynnwys yn llawn yn y datganiad costau gweithredu pan fydd y rhwymedigaeth yn codi.

1.9 **Prydlesi Gweithredol**

Mae gwariant ar eiddo a brydlesir yn wariant yn y cyfnod y mae'n berthnasol iddo. Mae taliadau ar gyfer cyfarpar yng nghyswllt prydlesi gweithredol yn cael eu dosbarthu'n gyfartal dros oes y brydles.

1.10 **Costau Staff a Chostau Gweinyddol Eraill**

Mae'r holl gostau cyflog a chostau cysylltiedig ar gyfer staff Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi eu cynnwys yn llawn yn y cyfrifon hyn. Mae'r dulliau a ddefnyddir i ddyrannu costau wedi eu dyfeisio i roi'r adlewyrchiad mwyaf cywir o gostau rhedeg swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Sail y dosrannu yw amcangyfrif o'r amser a dreulir ar amcanion y swyddfa gan y staff, ac eithrio gwariant y gellir ei briodoli'n uniongyrchol.

1.11 **Incwm Gweithredol**

Cyfrifir ar gyfer llog banc yn y flwyddyn y'i ceir. Credydur incwm arall i'r flwyddyn gyfrifo y gwneir y gwaith ynddi.

1.12 **Incwm anweithredol**

Mae incwm anweithredol y mae'n rhaid ei ildio i Gronfa Gyfunol Cymru yn codi o werthu asedau sefydlog.

1.13 **Grantiau'r Llywodraeth**

Cyfrifir ar gyfer grantiau'r llywodraeth yn y flwyddyn y'u ceir.

1.14 Cyfnewid Arian Tramor

Mae trafodion busnes mewn arian tramor yn cael eu trosi'n sterling yn ôl y cyfraddau sydd mewn grym ar ddyddiadau'r trafodion hyn.

1.15 Offerynnau Ariannol

Offeryn ariannol yw unrhyw gontract sy'n arwain at ased ariannol o un endid a rhwymedigaeth ariannol neu offeryn ecwiti o endid arall. Nid oes gan yr Ombwdsmon unrhyw offerynnau ariannol cymhleth o dan y disgrifiad a ddarperir gan IAS 32. Y prif offerynnau ariannol sy'n cael eu dal yw'r symiau taladwy a'r symiau derbyniadwy. Ystyrir y rhain yn fenthyciadau a symiau derbyniadwy yn unol ag IAS 39. Felly fe'u datgelir yn y cyfrifon ar sail cost wedi'i hamorteiddio.

1.16 Darpariaethau

Symiau yw'r rhain y mae'r swm neu'r amseru yn eu cylch yn ansicr ar ddyddiad y fantolen ar sail yr amcangyfrif gorau o'r gwariant sydd ei angen i setlo'r ymrwymadau. Pan fydd effaith gwerth amser arian yn sylweddol, caiff y llifoedd arian amcangyfrifedig yr addaswyd eu risg eu disgowntio gan ddefnyddio'r gyfradd ddisgownt a argymhellir gan Drysorlys EM.

1.17 Costau staff

Yn unol ag IAS 19, caiff buddion tymor byr gweithwyr, megis cyflogau a chyfraniadau nawdd cymdeithasol, gwyliau blynyddol â thâl ac absenoldeb salwch â thâl, yn ogystal â buddion anariannol ar gyfer gweithwyr cyfredol, eu cydnabod pan fydd gweithiwr wedi darparu gwasanaethau'n gyfnewid am y buddion hynny.

1.18 Adroddiadau Segmentaidd

Ni ystyrir bod unrhyw segmentau gweithredu i adrodd arnynt ar wahân yn unol ag IFRS 8; ond mae'r Ombwdsmon wedi dewis datgelu'n ychwanegol y gwariant sy'n gysylltiedig â phedwar phrif amcan y swyddfa. Ni ddarperir adroddiad ar yr wybodaeth hon yn fewnol.

2. Addasiadau'r flwyddyn flaenorol

Oherwydd y newid yn y polisi cyfrifyddu lle nad oes tâl cyfalaf i'w ddefnyddio bellach, mae'r addasiadau canlynol i adlewyrchu'r newid hwn wedi'u gwneud i ffigurau 2009-10. Yn 2009-10 y tâl cyfalaf am y flwyddyn oedd £35k.

Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr

	£000
Costau gweinyddol ar gyfer y flwyddyn 2009-10	1225
Addasiad y Tâl Cyfalaf	35
Ffigur diwygiedig ar gyfer 2009-10	<u>1260</u>

Costau gweithredu net ar gyfer 2009-10 oherwydd y tâl hwn:

	£000
2009-10 fel yr adroddwyd yn wreiddiol	3451
Addasiad y tâl cyfalaf	35
Ffigur diwygiedig ar gyfer 2009-10	<u>3486</u>

Mae'r newid yn effeithio ar y Crynodeb o'r Alldro Adnoddau, y Datganiad Ecwiti Trethdalwyr, y nodyn ategol ar Gysoni'r Costau Gweithredu â'r Llifoedd arian gweithredu, a Chysoni Adnoddau â'r gofynion arian parod net. Does dim newid i'r Datganiad Sefyllfa Ariannol na'r Datganiad Llifoedd Arian er bod symudiadau o fewn y nodiadau ategol i'r Datganiad Llifoedd Arian.

3. CYSONI ADNODDAU Â'R GOFYNION ARIAN PAROD NET

	Nodyn	2010-11 Amcangyfrif diwygiedig £000	2010-11	Cyfanswm yr alldro net o'i gymharu â'r arbediad/(gormodedd) a amcangyfrifwyd £000	2009-10 Alldro Diwygiedig £000
Alldro Adnoddau net y Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr			3871		3486
Llai Gwasanaethau Cronfa Gyfunol Cymru a rennir			187		191
Net		3760	3684	76	3295
Caffael asedau sefydlog	8/9	463	461	2	42
Incwm anweithredol			-	-	-
Addasiadau croniadau:					
Eitemau heb fod yn rhai ariannol	4/5	(177)	(110)	(67)	(180)
Newidiadau yn y cyfalaf gweithio ar wahân i arian parod		70	34	36	(1)
Defnyddio darpariaethau		20	36	(16)	79
Cyllido pensiynau	4	(36)	-	(36)	40
<i>Gofyniad net o ran arian Crynodeb o'r Alldro Adnoddau</i>		4100	4105	(5)	3275

4. **Niferoedd a Chostau Staff**

Yr oedd nifer gyfartalog y staff a gyflogwyd ar sail gyfwerth ag amser cyflawn (gan gynnwys uwch reolwyr) yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

	2010-11	2009-10
	Nifer	Nifer
Uwch reolwyr	3	3
Ymchwilio i gwynion	42	37
Staff Gwasanaethau Corfforaethol / Gweithredol	8	8
Cyfanswm	53	48

Penodwyd y staff ychwanegol i ymateb i effaith dileu'r drefn adolygiad annibynnol o dan Fesur Gwneud lawn am Gamweddau'r GIG a'r gwasanaeth newydd Cwynion Cymru.

Dyma gyfanswm y costau cyflogi:

	2010-11	2009-10
	£000	£000
Staff parhaol		
Cyflogau	1854	1690
Costau Nawdd Cymdeithasol	134	134
Costau pensiwn eraill	366	343
Cyfanswm	2354	2167
Staff dros dro	27	60
Costau Nawdd Cymdeithasol	1	3
Costau Pensiwn	3	5
Cyfanswm	31	68
Cyfanswm costau cyflogaeth	2385	2235

Mae costau staff dros dro yn cynnwys staff asiantaeth ynghyd ag unrhyw unigolion a gyflogwyd ar gontract dros dro.

Costau Gadael yn Gynnar

Daethpwyd i gytundeb â'r un aelod staff a oedd yn dal â chontract cyflogaeth gyda'r corff blaenorol, y Comisiwn dros Weinyddu Lleol yng Nghymru, i derfynu'i chyflogaeth o 30 Medi 2010 ymlaen. Dan delerau'r cytundeb nid oedd hawl i gael taliadau pensiwn yn syth nac ychwaith unrhyw dermau gwell i'w talu fel rhan o'r setliad. Ar wahân i hawl yr unigolyn i gael tâl yn lle rhybudd a setliad ar gyfer gwyliau heb eu cymryd, roedd taliad cyflog arall o dri mis. Does dim ymrwymïadau pellach i'w diwallu yn 2011-12 nac mewn unrhyw flwyddyn ariannol

ddilynol. Roedd cost y setliad gyfwerth â'r swm y byddid wedi'i dalu petai'r unigolyn wedi parhau yn ei swydd yn ystod blwyddyn ariannol 2010-11.

Pensiynau

Mae dau gynllun pensiwn yn cael eu gweithredu ar ran y staff presennol. O ran prisio un o'r cynlluniau hyn, y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, mae'r actiwari wedi cyfrifo mai'r diffyg ar 31 Mawrth 2011 yw £410k. Mae hyn yn welliant sylweddol ar y diffyg ar 31 Mawrth 2010 o £850k oherwydd y newid i seilio'r cynnydd mewn pensiynau ar y Mynegai Prisiau Defnyddwyr yn hytrach na'r Mynegai Prisiau Manwerthu.

Y mae rhwymedigaeth barhaus o hyd i dalu pensiynau tri cyn Ombwdsmon neu unrhyw berthnasau dibynnol.

(a) Prif Gynllun Pensiwn y Llywodraeth

Mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil yn gynllun buddion diffiniedig sawl-cyflogwr nas cyllidir, ond ni all Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru nodi ei gyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sy'n sail iddo. Cynhaliwyd prisiad o'r cynllun ar 31 Mawrth 2007 gan Actiwari'r cynllun. Mae manylion ar gael yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Pensiwn Sifil (www.civilservice-pensions.gov.uk).

Ar gyfer 2010–11, roedd cyfraniadau'r cyflogwyr o £333k yn daladwy i Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (2009–10 310k) ar un o bedwar cyfradd rhwng 16.7% a 24.3% o gyflog pensiynadwy, ar sail bandiau cyflog. Mae Actwari'r cynllun yn adolygu cyfraniadau'r cyflogwr bob pedair blynedd fel arfer ar ôl gwerthuso'r cynllun yn llawn. O 2011-12 ymlaen, bydd y cyfraddau'n parhau i amrywio rhwng 16.7% a 24.3%. Mae'r cyfraddau cyfrannu wedi'u gosod i dalu costau'r buddion sy'n cronni yn ystod 2010-11 i'w talu pan fydd yr aelod yn ymddeol, ac nid y buddion a delir yn ystod y cyfnod hwn i bobl sydd eisoes yn bensiynwyr.

Caiff gweithwyr ddewis agor cyfrif pensiwn partneriaeth, pensiwn cyfranddeiliaid lle rhoddir cyfraniad gan y cyflogwr. Cafodd cyfraniadau cyflogwr o £6K (2009-10 £6k) eu talu i un neu fwy o'r panel o dri darparwr pensiynau cyfranddeiliaid sydd wedi'u penodi. Mae cyfraniadau'r cyflogwr yn seiliedig ar oedran, ac maent yn amrywio o 3% i 12.5% o gyflog pensiynadwy. Mae cyflogwyr hefyd yn rhoi cyfraniad sy'n cyfateb i gyfraniadau'r gweithwyr hyd at 3% o gyflog pensiynadwy. Yn ychwanegol, roedd cyfraniadau gan y cyflogwr o £457

(2009-10 £547), 0.8% o gyflog pensiynadwy, yn daladwy i'r Cynllun Pensiwn ar gyfer talu costau buddion cyfandaliad yn y dyfodol yn sgil marwolaeth mewn gwaith ac ymddeol oherwydd iechyd gwael y gweithwyr hynny.

Nid oedd unrhyw gyfraniadau'n daladwy nac wedi'u talu ymlaen llaw i ddarparu'r y pensiwn partneriaeth ar ddyddiad y fantolen.

(b) Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Mae'r datgeliadau isod yn gysylltiedig â rhwymedigaethau Cronfa Pensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg (y Gronfa) sydd wedi'u cyllido, sy'n rhan o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Oherwydd bod y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn un a gyllidir rhaid i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a'i staff sy'n aelodau o'r cynllun dalu cyfraniadau i'r Gronfa, wedi'u cyfrifo ar lefel i gydbwysu rhwymedigaethau pensiwn ag asedau buddsoddiadau.

Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn cydnabod yr enillion a'r colledion yn llawn, yn syth drwy'r Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr.

Yn dilyn cyhoeddiad Llywodraeth y DU ar 22 Mehefin 2010, mae'r mynegai chwyddiant sydd i'w ddefnyddio i benderfynu ar y cynnydd yn y pensiwn statudol wedi cael ei newid o'r Mynegai Prisiau Manwerthu i'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr. Oherwydd nifer o wahaniaethau rhwng y mynegeion, gan gynnwys aelodaeth ac adeiladwaith, disgwylir y bydd y Mynegai Prisiau Defnyddwyr yn llai na'r Mynegai Prisiau Manwerthu yn y tymor hir sy'n golygu bod yr ymrwymiad o ran buddion diffiniedig wedi lleihau. Rydym o'r farn fod y newid hwn mewn polisi yn newid i'r ymrwymiad adeiladol i ddarparu rhai buddion penodol i aelodau'r Cynllun, sy'n arwain at gydnabod cost gwasanaeth blaenorol negyddol. Mae'r newid wedi'i gydnabod ar 22 Mehefin 2010.

Yn unol â Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol, mae'n ofynnol i ddatgelu gwybodaeth benodol sy'n ymwneud ag asedau, rhwymedigaethau, incwm a gwariant sy'n berthynol i gynlluniau pensiwn.

Datgelu o dan IAS19 (buddion a ariennir gan y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol)

Cynhaliwyd y prisiad actiwaraid diweddaraf o rwymedigaethau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar 31 Mawrth 2010. Mae'r rhwymedigaethau wedi cael eu hamcangyfrif gan yr actiwari cymwysedig annibynnol ar sail actiwaraid gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau. Y prif dybiaethau a ddefnyddiwyd gan yr actiwariaid cymwysedig annibynnol, Aon Hewitt, i ddiweddarau prisiad diweddaraf y Gronfa at ddibenion IAS19 oedd:

Prif dybiaethau ariannol (% y flwyddyn)

	31 Mawrth 2011	31 Mawrth 2010	31 Mawrth 2009
Cyfradd ddisgownt	5.5	5.5	6.7
Chwyddiant y Mynegai Prisiau Manwerthu	3.6	3.9	3.3
Chwyddiant y Mynegai Prisiau Defnyddwyr	2.7	amh.	amh.
Cyfradd y cynnydd mewn pensiynau a delir*	2.7	3.9	3.3
Cyfradd y cynnydd mewn pensiynau gohiriedig*	2.7	3.9	3.3
Cyfradd y cynnydd cyffredinol mewn cyflogau**	4.6	5.4	4.8

* Goruwch unrhyw gynnydd yn yr Isafswm Pensiwn Gwarantedig a delir pan fo hynny'n briodol

** Yn ogystal. mae'r actiwariaid wedi caniatáu ar gyfer yr un graddfeydd cyflog hyrwyddol sy'n gysylltiedig ag oedran ag a ddefnyddiwyd ym mhrisiad yr actiwari o'r Cronfeydd ar 31 Mawrth 2010.

Tybiaethau ynghylch y gyfradd marwolaethau

Mae'r tybiaethau ynghylch y gyfradd marwolaethau'n seiliedig ar y marwolaethau a brofwyd yn ddiweddar ymysg aelodau'r Gronfa ac yn caniatáu ar gyfer gwelliannau a ddisgwylir yn y dyfodol yn y gyfradd marwolaethau.

Marwolaethau ar ôl ymddeol (ymddeol mewn ieched arferol)	31 Mawrth 2011	31 Mawrth 2010
<u>Gwrywod</u> Tabl sylfaenol Blwyddyn Geni	Iechyd Arferol SAPS Safonol - Symiau Isel	PNMA00 gyda lwfans ar gyfer ffactorau gwella y Cohort Canolig (MC) i 2007
Cyfradd yn uwch na'r tabl sylfaenol * (blynyddoedd)	0	0
Codi'n uwch na chyfraddau'r tabl sylfaenol	100%	125%
Gwelliannau i gyfraddau'r tabl sylfaenol	CMI_2009 gyda chyfradd gwella tymor hir o 1.25% y flwyddyn	80% o'r Cohort Hir (o 2007) yn amodol ar isafswm sy'n sail i'r ffactorau gwella o 1.25% y flwyddyn
Oes yn y dyfodol ar ôl 65 oed (yn 65 oed ar ddyddiad y cyfrifyddu)	23.8	21.2
Oes yn y dyfodol ar ôl 65 oed (yn 45 oed ar ddyddiad y cyfrifyddu)	25.6	23.5
<u>Benywod</u> Tabl sylfaenol Blwyddyn Geni	Iechyd Arferol SAPS Safonol - Symiau Isel	PNFA00 gyda lwfans ar gyfer ffactorau gwella y Cohort Canolig i 2007
Cyfradd yn uwch na'r tabl sylfaenol * (blynyddoedd)	0	0
Codi'n uwch na chyfraddau'r tabl sylfaenol	80%	100%
Gwelliannau i gyfraddau'r tabl sylfaenol	CMI_2009 gyda chyfradd gwella tymor hir o 1.25% y flwyddyn	60% o'r Cohort Hir (o 2007) yn amodol ar isafswm sy'n sail i'r ffactorau gwella o 1.25% y flwyddyn
Oes yn y dyfodol ar ôl 65 oed (yn 65 oed ar ddyddiad y cyfrifyddu)	26.6	25.2
Oes yn y dyfodol ar ôl 65 oed (yn 45 oed ar ddyddiad y cyfrifyddu)	28.6	27.4

* Mae cyfradd o x o flynyddoedd yn golygu y tybir y bydd aelodau'r Gronfa'n dilyn patrwm cyfradd marwolaethau'r tabl sylfaenol am x o flynyddoedd yn hŷn na hwynt. Mae'r cyfraddau a ddangosir yn berthnasol i ymddeoliadau iechyd arferol.

	31 Mawrth 2011	31 Mawrth 2010
Cymudo	Wrth ymddeol, tybiwyd bob pob aelod yn cyfnewid 50% o'r uchafswm a ganiateir o'u hawliau pensiwn yng nghyswllt eu gwasanaeth blaenorol am gyfandaliad ychwanegol.	Tybiwyd bod pob aelod yn cyfnewid 50% o'r uchafswm a ganiateir o'u hawl pensiwn cyn 1 Ebrill 2008.
	Tybiwyd bod pob aelod wrth ymddeol yn cyfnewid 75% o'r uchafswm a ganiateir o'u hawliau pensiwn yng nghyswllt eu gwasanaeth yn y dyfodol am gyfandaliad ychwanegol.	Tybiwyd bod pob aelod yn cyfnewid 75% o'r uchafswm a ganiateir o'u hawl pensiwn ar ôl 31 Mawrth 2008.

Enillion disgwylidig ar asedau

Mae rhaniad yr asedau'n fras ar gyfer y Gronfa'n gyffredinol (yn seiliedig ar ddata a ddarperir gan Awdurdod Gweinyddu'r Gronfa) i'w weld yn y tabl isod. Dangosir hefyd y cyfraddau enillion tybiedig a fabwysiadwyd gan y cyflogwr ar gyfer IAS19.

	Cyfraddau enillion disgwylidig tymor hir ar 31.03.11 (% y flwyddyn)*	Rhania d yr asedau ar 31.03.11 (%)	Cyfraddau enillion disgwylidig tymor hir ar 31.03.10 (% y flwyddyn)*	Rhania d yr asedau ar 31.03.10 (%)	Cyfraddau enillion disgwylidig tymor hir ar 31.03.09 (% y flwyddyn)*	Rhania d yr asedau ar 31.03.09 (%)
Ecwitiâu	8.4	74.7	8.0	73.5	7.0	67.6
Eiddo	7.9	4.2	8.5	4.1	6.0	4.6
Bondiau'r Llywodraeth	4.4	4.9	4.5	4.9	4.0	7.7
Bondiau Corfforaethol	5.1	11.2	5.5	12.5	5.8	12.8
Arian	1.5	1.1	0.7	0.9	1.6	2.1
Arall **	8.4	3.9	8.0	4.1	1.6	5.2
Cyfanswm	7.7	100.0	7.5	100.0	6.2	100.0

**Mae'r gyfradd enillion gyffredinol ddisgwylidig ar asedau'r Gronfa yn ffigur cyfartalog wedi'i bwysoli o'r holl gyfraddau enillion disgwylidig ym mhob dosbarth ased unigol, ac fe'i dangosir yn rhes isaf y tabl uchod.*

*** Ymysg y daliadau eraill y mae cronfeydd rhagfantoli, daliadau arian cyfred, blaendrafodion dyrannu asedau ac eraill. Mae AON Hewitt wedi tybio y bydd y rhain yn darparu enillion yn unol ag ecwitiâu.*

Disgrifiad naratif o'r sail a ddefnyddiwyd i benderfynu ar yr enillion disgwylidig

Mae AON Hewitt ar ran Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn defnyddio dull adeiladu wrth benderfynu ar y gyfradd enillion ar gyfer asedau'r Cronfeydd. Astudir y marchnadoedd hanesyddol a thybir bod asedau mwy ansefydlog yn cynhyrchu enillion gwell sy'n gyson ag egwyddorion y farchnad gyfalaf a dderbynnir yn eang. Nodir y gyfradd enillion dybiedig ar bob categori o ased yn y nodyn hwn. Wedyn ceir y gyfradd enillion ddisgwylidig

gyffredinol ar gyfer yr asedau drwy gyfuno'r enillion disgwylidig ar gyfer pob categori o ased dros ddryniad gwirioneddol yr asedau ar gyfer y Gronfa ar 31 Mawrth 2011.

Cysoni'r statws 'a ariennir' â'r Fantolen

	Gwerth ar 31 Mawrth 2011 (£M)	Gwerth ar 31 Mawrth 2010 (£M)	Gwerth ar 31 Mawrth 2009 (£M)
Gwerth teg yr asedau	3.97	4.06	3.10
Gwerth presennol yr ymrwymiad o ran y buddion diffiniedig a ariennir	4.31	4.91	3.67
Ased/(rhwymedigaeth) pensiwn cyn ystyried paragraff 58	(0.34)	(0.85)	(0.57)
Addasiad yng nghyswllt paragraff 58	(0.07)	0.00	0.00
Ased/(Rhwymedigaeth) pensiwn a gydnabyddir yn y fantolen	(0.41)	(0.85)	(0.57)

Taliadau i'r Cyfrif Elw a Cholled

	Blwyddyn yn dod i ben ar 31 Mawrth 2011 (£M)	Blwyddyn yn dod i ben ar 31 Mawrth 2010 (£M)
Cost bresennol y gwasanaeth	0.04	0.03
Cost y gwasanaeth yn y gorffennol	(0.54)	0.00
Cost llog	0.24	0.24
Enillion disgwylidig ar asedau	(0.29)	(0.19)
Cost cwtogi	0.00	0.00
Cost setliad	0.00	0.00
Costau cydnabyddedig	(0.55)	0.08

Newidiadau i werth presennol yr ymrwymiad buddion diffiniedig yn ystod y cyfnod cyfrifyddu

	Blwyddyn yn dod i ben ar 31 Mawrth 2011 (£M)	Blwyddyn yn dod i ben ar 31 Mawrth 2010 (£M)
Ymrwymiad buddion diffiniedig agoriadol	4.91	3.67
Cost bresennol y gwasanaeth	0.04	0.03
Cost llog	0.24	0.24
Cyfraniadau gan gyfranogwyr	0.01	0.01
(Enillion)/colledion actiwaraid ar rwymedigaethau *	(0.08)	1.10
Buddion net a dalwyd #	(0.27)	(0.14)
Cost y gwasanaeth yn y gorffennol	(0.54)	0.00
Cyfuniadau Busnes	0.00	0.00
Cwtogiadau	0.00	0.00
Setliadau	0.00	0.00
Ymrwymiad buddion diffiniedig terfynol	4.31	4.91

* Yn cynnwys newidiadau i'r tybiaethau actiwaraid.

Yn cynnwys llif arian net o'r Gronfa yng nghyswllt y cyflogwr, heb gynnwys cyfraniadau ac unrhyw gyfandaliadau a dalwyd yn sgil marwolaeth mewn gwaith, ac yn cynnwys lwfans bras ar gyfer cost ddisgwylidig cyfandaliadau a delir yn sgil marwolaeth mewn gwaith.

Newidiadau i werth teg yr asedau yn ystod y cyfnod cyfrifyddu

	Blwyddyn yn dod i ben ar 31 Mawrth 2011 (£M)	Blwyddyn yn dod i ben ar 31 Mawrth 2010 (£M)
Gwerth teg agoriadol yr asedau	4.06	3.10
Enillion disgwylidig ar asedau	0.29	0.19
Enillion/(colledion) actiwaraid ar asedau	(0.15)	0.86
Cyfraniadau gan y cyflogwr	0.03	0.04
Cyfraniadau gan y cyfranogwyr	0.01	0.01
Buddion net a dalwyd #	(0.27)	(0.14)
Cyfuniadau Busnes	0.00	0.00
Setliadau	0.00	0.00
Gwerth teg terfynol yr asedau	3.97	4.06

Yn cynnwys llif arian net o'r Gronfa yng nghyswllt y cyflogwr, heb gynnwys cyfraniadau ac unrhyw gyfandaliadau a dalwyd yn sgil marwolaeth mewn gwaith, ac yn cynnwys lwfans bras ar gyfer cost ddisgwylidig cyfandaliadau a delir yn sgil marwolaeth mewn gwaith.

Enillion gwirioneddol ar asedau

	Blwyddyn yn dod i ben ar 31 Mawrth 2011 (£M)	Blwyddyn yn dod i ben ar 31 Mawrth 2010 (£M)
Enillion disgwylidig ar asedau	0.29	0.19
Enillion/(colledion) actiwaraid ar asedau	(0.15)	0.86
Enillion gwirioneddol ar asedau	0.14	1.05

Dadansoddiad o'r symau a gydnabyddir yn yr Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall

	Blwyddyn yn dod i ben ar 31 Mawrth 2011 (£M)	Blwyddyn yn dod i ben ar 31 Mawrth 2010 (£M)
Cyfanswm enillion/(colledion) actiwaraid	(0.07)	(0.24)
Addasiad yng nghyswllt paragraff 58	(0.07)	0.00
Cyfanswm enillion/(colledion)	(0.14)	(0.24)

Hanes gwerthoedd asedau, gwerth presennol yr ymrwymiad buddion diffiniedig a gwarged/diffyg

	Ar 31 Mawrth 2011 £M	Ar 31 Mawrth 2010 £M	Ar 31 Mawrth 2009 £M	Ar 31 Mawrth 2008 £M
Gwerth teg yr asedau	3.97	4.06	3.10	4.41
Gwerth presennol yr ymrwymiad buddion diffiniedig	4.31	4.91	3.67	4.12
Gwarged / (Diffyg)	(0.34)	(0.85)	(0.57)	0.29

Hanes o enillion a cholledion a brofwyd

	Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2011	Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2010	Blwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2009	Blwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2008
Enillion/(colledion) a brofwyd ar asedau				
▪ Swm £M	(0.15)	0.86	(1.00)	(0.44)
▪ Canran yr asedau	-3.8%	21.2%	-32.3%	(10.0%)
Enillion (colledion) a brofwyd ar rwymedigaethau #				
▪ Swm £M	0.09	0.06	(0.02)	(0.02)
▪ Canran gwerth cyfredol y rhwymedigaethau	2.1%	1.2%	-0.5%	-0.5%

Mae'r eitem hon yn cynnwys enillion/(colledion) yng nghyswllt y rhwymedigaethau a brofwyd yn unig ac nid yw'n cynnwys unrhyw newid yn y rhwymedigaethau yng nghyswllt newidiadau yn y tybiaethau actiwaraidd a ddefnyddiwyd.

Cyfraniadau ar gyfer y flwyddyn yn dod i ben ar 31 Mawrth 2012

Amcangyfrifir y bydd cyfraniadau rheolaidd gan y cyflogwr i'r gronfa ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2012 yn £0.04m. Ar ben hynny, mae'n bosib y bydd angen Cyfraniadau Straen ar Gronfa.

Terfynu'r cynllun

Mae'r wybodaeth am bensiynau a ddarperir uchod yn cydymffurfio â gofynion IAS 19. Mae'n dangos diffyg o £410k yn y gronfa bensiwn ar 31 Mawrth 2011. Mae trafodaethau'n cael eu cynnal ar hyn o bryd gyda'r Gronfa Bensiwn ynglŷn â gwneud taliadau cyfnodol ar gyfer y rhwymedigaeth ariannol a fydd yn codi pan na fydd rhagor o aelodau gweithredol i'w cael; 2017-18 yn ôl yr amcangyfrif ar hyn o bryd. Mae'r sail a ddefnyddir i gyfrifo'r rhwymedigaeth honno'n wahanol i'r un sy'n berthnasol o dan IAS 19 gan y bydd yn rhaid sicrhau y gellir delio â'r holl ymrwymadau wedi'r dyddiad cau oherwydd wedi hynny bydd unrhyw rhwymedigaeth ariannol i'r dyfodol yn cael ei hysgwyddo gan y Gronfa Bensiwn. Yr amcangyfrif presennol ar gyfer y rhwymedigaeth honno mewn perthynas â chau yw £1.6 miliwn.

Cynnydd ym Mhensiynau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Yn natganiad Cyllideb y DU ar 22 Mehefin 2010, cyhoeddodd Canghellor y Trysorlys y byddai'r Llywodraeth, o 1 Ebrill 2011 ymlaen, yn defnyddio'r Mynegai Prisiau Manwerthu yn hytrach na'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr ar gyfer mynegeoio prisiau budd-daliadau a chredydau treth; ac y byddai hyn hefyd yn berthnasol i bensiynau'r gwasanaethau cyhoeddus drwy'r cyswllt statudol â mynegeoio Ail Bensiwn y Wladwriaeth.

Mae'r newid o'r Mynegai Prisiau Manwerthu i'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr er mwyn uwchraddio nodweddion y buddion ôl-gyflogaeth sy'n gysylltiedig â'r mynegai wedi cael ei gydnabod fel cost gwasanaeth blaenorol negyddol yn unol ag IAS 19. Mae'r broses gyfrifyddu hon wedi cael ei mabwysiadu gan holl gyrff adrodd Llywodraeth ganol lle mae'r Mynegai Prisiau Manwerthu wedi cael ei ddefnyddio ar gyfer mynegeo chwyddiant ers blynnyddoedd.

Mae'r cwestiwn, o ran prif gynlluniau pensiwn y gwasanaethau cyhoeddus, a oes disgwyliad dilys y bydd y Mynegai Prisiau Manwerthu yn cael ei ddefnyddio ar gyfer mynegeo chwyddiant yn cael ei ystyried gan y llysoedd ar hyn o bryd mewn adolygiad barnwrol. Yn ôl y Llywodraeth does dim disgwyliad dilys yn bodoli, a hyd yn oed os oes disgwyliad dilys, mae'r fantais glir i'r cyhoedd o wneud arbedion sylweddol mewn cyfnod pan mai lleihau'r diffyg yw un o brif amcanion y Llywodraeth ar gyfer y wlad yn bwysicach na'r disgwyliad hwnnw. Os caiff achos y Llywodraeth ei brofi, ni fyddai dim newid yn y broses gyfrifyddu a ddefnyddiwyd ar gyfer y cyfrifon hyn.

(c) Pensiynau i gyn Ombwdsmyr

Gyda chytundeb Ysgrifennydd Gwladol Cymru ym 1991, a chadarnhad dilynol gan Offeryn Statudol 1993 Rhif 1367, daeth Comisiynwyr Llywodraeth Leol yn gymwys i ymuno â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Fodd bynnag, mae pensiynau'r tri Chomisiynydd Llywodraeth Leol blaenorol yn parhau'n gyfrifoldeb Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, ac yn cael eu talu drwy'r Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr.

Mae pensiynau'n cael eu cynyddu'n flynyddol yn unol â chynlluniau pensiwn eraill yn y Sector Cyhoeddus. Mae sail y cyfrifiadau ar gyfer y Cynnydd Blynnyddol mewn Pensiynau wedi cael ei newid o ddefnyddio'r symudiad blynnyddol seiliedig ar y Mynegai Prisiau Manwerth i'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr. Mae main y cynnydd wedi'i nodi yn Offeryn Statudol 2011 Rhif 827. Eleni 3.1% oedd y cynnydd, a hynny o 12 Ebrill 2011 ymlaen. Yn 2009-10 ni chafwyd dim cynnydd, ond wrth gyfrifo'r rhwymedigaeth defnyddiwyd cyfartaledd y cynnydd yn y blynnyddoedd ers i'r wybodaeth gael ei chynnwys yn y cyfrifon. Y gyfradd honno oedd 2.9%.

Mewn perthynas â'r Gronfa Bensiwn Llywodraeth Leol, cyfeiriwyd at y posibilrwydd y byddai'r adolygiad barnwrol, yn dibynnu ar y canlyniad, yn arwain at gadarnhau'r ddarpariaeth yn seiliedig ar y Mynegai Prisiau Defnyddwyr neu ailbrisiad yn seiliedig ar y

Mynegai Prisiau Manwerthu. Fel y nodwyd uchod, os caiff achos y Llywodraeth ei brofi, ni fyddai dim newid yn y broses gyfrifyddu a ddefnyddiwyd ar gyfer y cyfrifon hyn.

Cyfanswm y taliadau yn ystod 2010-11 oedd £75k (£75k yn 2009-10). Mae'r rhwymedigaethau sy'n codi o'r ymrwymiad i gyllido'r pensiynau hyn, ynghyd ag unrhyw bensiynau dibynyddion, wedi eu cyfrifo i fod yn £506k (2009-10 £543k). Cyflawnwyd y cyfrifiad i bennu'r rhwymedigaeth gyffredinol yn fewnol drwy ddefnyddio tablau disgwyliadau oes ar gyfer dynion a menywod yng Nghymru oddi ar wefan Adran Actwari'r Llywodraeth. Mae cyfradd ddisgownt o 2.9% (2009-10 3.5%) wedi'i defnyddio yn unol ag arweiniad gan y Trysorlys y dylid rhoi disgownt ar gyfer yr holl rwymedigaethau pensiwn. Dangosir manylion pellach dan symudiadau mewn darpariaethau (Nodyn 13).

5. Costau Gweinyddol heb fod yn rhai staff

	2010-11	2009-10
	£000	Diwygiedig £000
Rhenti o dan brydlesi gweithredu	218	179
Ffi Archwilwyr Allanol	25	20
Gwasanaethau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru a Grant Thorton	1	1
Cynghorwyr Proffesiynol	312	314
Costau eiddo eraill	107	92
Gwasanaethau cyfrifiadurol	200	67
Costau swyddfa	147	126
Teithio a chynhaliaeth	28	40
Recriwtio a Hyfforddi	67	43
Cyfathrebu	80	77
Gwasanaethau sefydlog y Gronfa Gyfunol (Cyflog a chostau cysylltiedig yr Ombwdsmon a delir o Gronfa Gyfunol Cymru)	187	191
Is-gyfanswm	1372	1150
Dibrisiant	89	61
Tâl Amorteiddio	50	48
Colled wrth waredu	11	1
Darpariaeth ar gyfer ailaddurno swyddfeydd yn y dyfodol	1	-
Is-gyfanswm	151	110
Cyfanswm y Costau Gweinyddol Eraill	1523	1260

6. Incwm Gweithredol

Daw'r incwm sydd i ddod i law o fuddsoddi cronfeydd dros ben yn y tymor byr ac o secondiad dros dro ymchwilydd.

	2010-11 £000	2009-10 £000
Staff ar secondiad	37	9
Llog sydd i ddod i law	-	-
Cyfanswm yr incwm gweithredol	<u>37</u>	<u>9</u>

7. COSTAU GWEITHREDU YN ÔL NODAU AC AMCANION

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2011

Amlinellir costau darparu gwasanaeth Ombwdsmon o'r radd flaenaf i Gymru isod.

Dyrannwyd i bob amcan fel a ganlyn:

- (a) Amcangyfrif o'r amser staff a dreulwyd ar yr amcan
- (b) Dyrannu gwariant yn uniongyrchol
- (c) Dosrannu costau eraill ar sail pro rata i'r amcangyfrif amser staff

	2010-11			2009-10		
	Gros £000	Incwm £000	Net £000	Gros £000	Incwm £000	Net £000
Codi ymwybyddiaeth am ein gwasanaeth er mwyn i bobl ddeall yr hyn yr ydym yn ei wneud, a bod pawb y mae angen y gwasanaeth arnynt yn gallu cael gafael arno a'i ddefnyddio	271		271	273		273
Bod â phrosesau o ansawdd da ar gyfer delio â chwynion, sy'n ystyried ac yn penderfynu ar gwynion yn drylwyr ond yn gymesur, ac yn cyfleu'u penderfyniadau'n glir	2878	(37)	2841	2686	(9)	2677
Gweithio gyda chyrrff cyhoeddus yng Nghymru er mwyn darparu gwasanaethau cyhoeddus o safon well o ganlyniad i'r gwersi y gellir eu dysgu o'r cwynion yr ydym yn ymchwilio iddynt	576		576	367		367
Dangos bod ein hadnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon ac effeithiol.	183		183	169		169
Costau gweithredu net	3908	(37)	3871	3495	(9)	3486

8. Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar

	Peirian nau (plant)	Cyfrifiaduron a chyfarpar arall	Dodrefn a ffitiadau eraill	Cyfanswm
	£000	£000	£000	£000
Cost neu brisiad ar 1 Ebrill 2010	94	149	242	485
Ychwanegiadau	62	35	66	163
Gwarediadau		(14)	(14)	(28)
Ar 31 Mawrth 2011	156	170	294	620
Dibrisiant ar 1 Ebrill 2010	(53)	(99)	(130)	(282)
Cofnodwyd yn y flwyddyn	(25)	(25)	(39)	(89)
Gwarediadau		8	9	17
Ar 31 Mawrth 2011	(78)	(116)	(160)	(354)
Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2011	78	54	134	266
Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2010	41	50	112	203

Ym marn Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru nid oes gwahaniaeth o bwys rhwng gwerth llyfr net yr asedau yn ôl eu gwerthoedd heddiw a'u cost hanesyddol.

9. Asedau Anniriaethol

	Meddalwed d wedi'i datblygu	Meddalwedd wedi'i phrynu	Cyfanswm
	£000	£000	£000
Cost neu Brisiad ar 1 Ebrill 2010	175	60	235
Ychwanegiadau	297	1	298
Ar 31 Mawrth 2011	472	61	533
Amorteiddio ar 1 Ebrill 2010	(169)	(52)	(221)
Amorteiddio yn ystod y cyfnod	(43)	(7)	(50)
Ar 31 Mawrth 2011	(212)	(59)	(271)
Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2011	260	2	262
Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2010	6	8	14

Yn ystod y flwyddyn buddsoddwyd yn helaeth i wella'r system monitro cwynion cyfrifiadurol presennol. Y pwrpas yw galluogi'r swyddfa i ymgymryd â'r gweithgarwch ychwanegol a fydd yn deillio o Fesur Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG a Cwynion Cymru.

Ym marn Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru nid oes gwahaniaeth o bwys rhwng gwerth llyfr net yr asedau yn ôl eu gwerthoedd heddiw a'u cost hanesyddol.

10. Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill

	2010-11 £000	2009-10 £000
Symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn		
Blaendaliadau	52	2
Symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn:		
Blaendaliadau	147	160
Symiau masnach derbyniadwy	-	9
	147	169
Cyfanswm	199	171

11. Arian parod a'r hyn sy'n Gyfwerth ag Arian Parod

Rhaid dychwelyd unrhyw falansau arian a ddelir ar ddiwedd y flwyddyn i Gronfa Gyfunol Cymru. Mae credydwr am £252 (2009-10 £5k) wedi'i gynnwys yn y cyfrifon, fel balans net diwedd blwyddyn yr holl gyfrifon banc a weithredir gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, ni waeth a yw'r cyfrif unigol mewn dyled neu gredyd, a swm y grant a dderbyniwyd yn cael ei wrthbwyso gan yr ad-daliad hwn. Byddai'n rhaid ad-dalu hwn i Gronfa Gyfunol Cymru dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 petai'n dal yn weddill ar ddiwedd y flwyddyn.

12. Symiau masnach taladwy a rhwymedigaethau cyfredol eraill

	2010-11 £000	2009-10 £000
Symiau sy'n dod yn ddyledus mewn blwyddyn		
Symiau sy'n ddyledus i'r Casglwr Trethi	-	-
Gwyliau blynyddol heb eu cymryd	57	49
Symiau sy'n ddyledus i'r Comisiynydd Seneddol	3	5
Cronfa Gyfunol Cymru -		
balansau heb eu gwario	0	5
incwm anweithredol	0	1
Symiau masnach taladwy	13	6
Croniadau	28	36
	101	102
Symiau sy'n dod yn ddyledus mewn mwy na blwyddyn		
Gostyngiad gohiriedig ar rent	25	30
Cyfanswm	126	132

13. Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

	2010-11			2009-10
	Pensiynau i Gyn- Gomisiynwyr £000	Costau ailaddurno yn y dyfodol £000	Cyfanswm £000	Cyfanswm £000
Balans ar 1 Ebrill	543	-	543	632
Darpariaeth ychwanegol angenrheidiol	25	1	26	(10)
Symudiad yn y gyfradd ddisgownt	13	-	13	
Darpariaethau a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn	(75)	-	(75)	(79)
Balans	506	1	507	543
Dadansoddiad o pryd y disgwyliar i'r darpariaethau gael eu talu:				
Taladwy o fewn blwyddyn			73	72
Taladwy o fewn 2 i 5 mlynedd			276	282
Taladwy ar ôl 5 mlynedd			158	189
Balans ar 31 Mawrth 2011			507	543

Y prif reswm am y cynnydd yn y ddarpariaeth pensiynau oedd y cynnydd yn nisgwyliad oes pobl. Mae'r ffactor disgownt wedi'i newid i 2.9% am y flwyddyn ariannol yn unol ag arweiniad y Trysorlys. 3.5% oedd y gyfradd a ddefnyddiwyd yn 2009-10.

Mae costau ailaddurno yn y dyfodol yn codi o rwymedigaeth i ailaddurno y tu mewn i'r adeiladau a brydlesir ym Mharc Bocam. Ar ôl defnyddio'r ddarpariaeth i dalu costau ailaddurno'r swyddfa ym mis Ionawr 2010, mae symiau'n cael eu neilltuo ar gyfer y rhwymedigaeth i ailaddurno'r swyddfa ym flwyddyn ariannol 2014-15. Darparwyd ar gyfer y swm o £1500 ym flwyddyn ariannol 2010-11 tuag at gost y gwaith hwn.

14. Cysoni'r costau gweithredu â'r llifoedd arian gweithredu

	Nodiad au	2010-11	2009-10
		£000	£000
Cost gweithredu net		(3871)	(3486)
Addasu ar gyfer eitemau anariannol	4,5	110	180
(Cynnydd)/Lleihad mewn symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill	10	(28)	19
(Lleihad)/Cynnydd mewn symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill	12	(6)	(18)
Llai symudiad mewn credydwy'r sy'n ymwneud ag eitemau nad ydynt yn pasio trwy'r SOCNE		0	(6)
Taliad ar gyfer y diffyg yn y gronfa pensiynau		-	(40)
Defnyddio darpariaethau	13	(36)	(79)
Gwasanaethau Cronfa Gyfunol Cymru a rennir	5	187	191
All-lif arian net o weithgareddau gweithredu		(3644)	(3239)

15. Gwariant Asedau Anghyfredol a buddsoddiad ariannol

	2010-11	2009-10
	£000	£000
Prynu eiddo, peiriannau a chyfarpar	(163)	(40)
Yr elw o werthu eiddo, peiriannau a chyfarpar	-	1
Prynu asedau anniriaethol	(298)	(2)
All-lif arian net o weithgareddau buddsoddi	(461)	(41)

16. Cysoni'r gofyniad arian parod net â'r cynnydd/(lleihad) mewn arian parod

	2010-11 £000	2009-10 £000
Gofynion Arian Parod Net:		
Gweithgareddau gweithredu	(3644)	(3239)
Gwariant Cyfalaf	(461)	(41)
	<u>(4105)</u>	<u>(3280)</u>
Cyllid gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru	4100	3256
Cynnydd mewn arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod	<u>(5)</u>	<u>(24)</u>

17. Ymrwymadau o dan Brydlesi Gweithredol

	2010-11		2009-10	
	Adeiladau	Arall	Adeiladau	Arall
	£000	£000	£000	£000
Ar 31 Mawrth 2011, roedd y swyddfa wedi ymrwymo i wneud y taliadau canlynol yn ystod y flwyddyn nesaf yng nghyswllt prydlesi gweithredol a fyddai'n dod i ben:				
O fewn blwyddyn	-	4	-	7
rhwng dwy a phum mlynedd	190	5	190	5
Ar ôl pum mlynedd	-	-	-	-
	<u>190</u>	<u>9</u>	<u>190</u>	<u>12</u>

18. Rhwymedigaethau wrth gefn

Nid oedd dim rhwymedigaethau wrth gefn ar 31 Mawrth 2011 (2009-10 Dim).

19. Ymrwymadau cyfalaf

Nid oedd dim ymrwymadau cyfalaf ar 31 Mawrth 2011 (2009-10 Dim)

20. Offerynnau ariannol

Oherwydd natur ddifasnach y rhan fwyaf o'i weithgareddau, a'r modd y mae cyrff y llywodraeth yn cael eu hariannu, nid yw Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn agored i'r un faint o risg ariannol ag a wynebier gan rai cyrff busnes. Nid oes gan y swyddfa bwerau i fenthg arian ond gall fuddsoddi arian dros ben dros dro. Cynhyrchir asedau a

rhwymedigaethau ariannol gan weithgareddau gweithredu o ddydd i ddydd ac ni thbyir eu bod yn newid y risgiau a wynebir gan y swyddfa wrth gyflawni ei gweithgareddau.

21. Trafodion Busnes â Phartïon Perthynol

Pennaeth Swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yw Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ac fe'i sefydlwyd o dan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005. Mae'r Ombwdsmon yn annibynnol ar y Llywodraeth ac mae trefniadau cyllido'r swyddfa wedi'u trefnu i sicrhau y diogelir annibyniaeth y swyddfa. Mae'r Ombwdsmon wedi cael nifer o drafodion y bwys gyda Chynulliad Cenedlaethol Cymru a chyda swyddfa'r Ombwdsmon Seneddol. Hefyd, mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi cael nifer fach o drafodion gydag Adrannau eraill o'r Llywodraeth a chyrff eraill y llywodraeth ganolog.

Ym mis Ebrill 2010 penodwyd Peter Tyndall, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, yn gadeirydd Cymdeithas Ombwdsmon Prydain ac Iwerddon. Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn aelod o'r Gymdeithas.

22. Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Ni chafwyd dim digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd y mae angen eu datgelu neu sy'n gofyn am addasu datganiadau ariannol 31 Mawrth 2011.